# Y CARDI BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 448 | Chwefror 2024 | Pris £1.50


# CYFARFOD PROTEST FFERMWYR GORLLEWIN CYMRU


Llun: Aled Scourfield

**Dyfodol byd amaeth a cefn gwlad dan fygythiad**

Cynhaliwyd cyfarfod tanllyd ac emosiynol iawn ym mart Caerfyrddin ar nos Iau, Chwefror 8fed.

Dywedodd un o drefnwyr y brotest, Aled Rees, wrth y dyrfa fod yna "un argyfwng ar ôl y llall ym myd amaeth a'r un llywodraeth sydd wedi bod yng Nghaerdydd".

Dywedodd bod y niferoedd oedd yn bresennol yn arwydd o bryder ac anfodlonrwydd y ffermwyr. Arddangoswyd arch i symboleiddio bod cynlluniau y Llywodraeth yn cynrychioli marwolaeth y byd amaeth yng Nghymru.

Cafodd cynnig ei wneud bod mandad yn cael ei gyflwyno i drefnwyr y cyfarfod drafod yn uniongyrchol â Llywodraeth Cymru - cafodd y cynnig ei gefnogi yn unfrydol. Mae Llywodraeth Cymru wedi annog ffermwyr i gymryd rhan mewn ymgynghoriad ar eu cynlluniau, gan ddweud eu bod yn debygol o newid.

Bu Llyr Gruffydd, llefarydd Plaid Cymru ar Faterion Gwledig yn anerch y dorf a dywedodd yntau nad oedd erioed wedi gweld cymaint o sialensiau ym myd amaeth ar yr un adeg.

Roedd 'na feirniadaeth hefyd o'r polisi yn ymwneud â'r diciâu, neu TB, gyda galw am newid sylfaenol er mwyn mynd i'r afael â'r clefyd mewn bywyd gwyllt.

Erbyn hyn mae Gweinidog Materion Gwledig Llywodraeth Cymru Lesley Griffiths AS, wedi gwahodd llywyddion yr undebau ffermio i gyfarfod brys er mwyn clywed eu barn ac i drafod pryderon ffermwyr a busnesau gwledig Cymru.

Wrth gloi'r cyfarfod. dywedodd Aled Rees ei fod yn gobeithio y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried "y dicter a'r pryder" sy'n bodoli o fewn y byd amaeth, ond nad oedd Mark Drakeford a Leslie Griffiths wedi dangos "unrhyw gydymdeimlad i'r diwydiant".

Fe gododd un o'r trefnwyr, Gary Howells, sydd yn ffermio yn Shadog, Llandysul, ei fab ifanc i fyny o flaen y dorf a dweud bod Dafydd, ei fab, am ffermio. Gofynnodd: "Sut alla i ddweud wrth Dafydd bod y Blaid Lafur yng Nghaerdydd am chwalu ei freuddwydion? Fe fyddwn ni yn ymladd hwn i'r pen." Roedd pawb dan deimlad wrth glywed Gary yn datgan ei ofid ac yn benderfynol dylid brwydro i'r eithaf er mwyn sicrhau dyfodol y byd amaeth.

## Dathlu Canmlwyddiant Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio



Gweler yr hanes ar dudalen 24

**Y CARDI BACH**

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **Cystadleuaeth** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr::** | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas 01994 230121 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **10fed** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.


# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

Mae mis prysur Mawrth yn agosáu - o ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, i Eisteddfodau Cylch a Sir yr Urdd, i ddramâu'r Ffermwyr Ifanc, heb anghofio Cân i Gymru, a'r cyfan yn brawf bod ein diwylliant yn fyw ac yn iach a'r Gymraeg yn rhan ganolog o hynny. Unwaith eto eleni, mae'r cennin pedr wedi blodeuo yn gynnar iawn, ac mae teimlad yr adeg hon o'r flwyddyn bod cyfnod llwm y gaeaf y tu ôl i ni, ac y bydd modd gadael ein cartrefi, cefnu ar wylio'r teledu bob nos, a mynd allan i fwynhau yr awyr agored.

Yn bersonol, dydw i ddim yn hoff o gwbwl o'r cyfnod fis Hydref pan fo'r clociau yn troi yn ôl a thywyllwch yn taro yn hwyr y prynhawn. Mae'n gyfnod pan fo annibyniaeth yn cael ei gyfyngu a rhuthr wyllt i fynd am dro ar fy mhen fy hun cyn iddi dywyllu.

Ond ymestyn mae pob diwrnod erbyn hyn, diolch byth. A rydw i'n dwli clywed sŵn yr adar bach o gwmpas y tŷ yr adeg hon o'r flwyddyn. A gyda'r Pasg yn gynnar eleni - yn wir ym Mis Mawrth, 'dw i awydd mentro allan yn y garafan ynghynt y gwanwyn hwn, er mwyn mwynhau gogoniannau'r ardal hon a thu hwnt.

Ac rydw i'n aml yn rhyfeddu bod cynifer o lefydd ac adeiladau yng Nghymru nad ydw i wedi llwyddo i ymweld â nhw eto. Yn ddiweddar iawn ar ymweliad â Thŷ Ddewi fe fum mewn gwasanaeth Cymraeg yn y Gadeirlan, ar fore Sul, a chael croeso mawr yno, a chwestiynu pam nad oeddwn i wedi bod o'r blaen. Mae gymaint allan yna i'w ddarganfod.

Felly'r garafan amdani, a'r gwresogydd ymlaen, wrth i'r gwanwyn ddeffro !

Ac yn y cyfamser, pob lwc i bawb sy'n cystadlu mewn amrywiol gystadlaethau yn ystod yr wythnosau nesaf.

---

# Gymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion

Cwrdd Gweddi Dechrau'r Flwyddyn.

Cafwyd oedfa hyfryd dros Zoom ar nos Iau, Ionawr 11eg a hynny ar ddechrau blwyddyn newydd ac hefyd i gofnodi Diwrnod William Williams, Pantycelyn.

Llywyddwyd gan Eurfyl Lewis, Llywydd y Gymanfa ac yn dilyn gair o groeso a gweddi agoriadol ganddo, bu Ann Bowen Morgan a'r Parchedig Irfon C Roberts yn cymryd at y rhannau arweiniol gan osod naws hyfryd i'r oedfa.

Cyflwynodd Delyth Morgans Phillips ychydig o hanes y Pêr Ganiedydd cyn ein tywys drwy ddeg o'i hoff emynau o waith Pantycelyn. Hyfryd oedd gweld a chlywed dwy emyn yn cael eu canu ar recordiad o Landeilo ym 1991.

Yn dilyn sgwrs rhwng y rhai oedd yn bresennol, am yr emynau, fe gyhoeddwyd y Fendith gan Y Parch Ddr D Densil Morgan.

## GOHEBWYR LLEOL

ALMA: Margaret Evans
01994 230761
BANCYFELIN: Merle Jones
01267 211300
eleanormerle@icloud.com
CAPELI BANCYFELIN a CANA
Parch, Beti-Wyn James
beti.wyn@icloud.com
BLAENWAUN: Tegwen James
01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun) Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
CEFNYPANT: Valerie Davies
01994 448475
vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN: Lynys Davies
01437 563319
mam_dadbox@yahoo.co.uk
CWMBACH: Jane Evans
01994 448790
teulujames@btinternet.com
CWMFELIN MYNACH: Nansi Evans
01994 448392
EFAILWEN: Angharad Booth Taylor
01994 419221
angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN: Peter Crowdie
01994 230033
peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN: Heather Jenkins
01994 240138
jenkinsh2809@gmail.comY
(Newyddion Tabernacl) Parch. Guto Llywelyn
01269 851655
gutollywelyn@hotmail.com
HENLLAN - FALLTEG: Sian Jackson
01994 240981
jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN a CWM MILES Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
LLANBOIDY: Norah Heseltine
01994 448241
sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN: Jill Lewis
01994 419495
jill.lluest@gmail.com
LLANGYNIN: Susan Phillips
01994 231066
siwperiw@googlemail.com
MEIDRIM: Patsy Lewis
01994 230369
talarwen@hotmail.com
PENYBONT: Linda Davies
01994 484657
lindadavies02061955@icloud.com
PWLLTRAP: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID: Doreen Adams
01994 240581
RHYDWILYM: Eilir Davies
01994 419649
eilirtyrhos@btinternet.com
SAN CLER: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
TRELECH: Alyson Harries
01994 484359
alysonharries@btconnect.com

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan y Parchedig Gareth Ioan*

Fe ddaeth Chwefror unwaith eto. Mae'r eirlysiau yn harddu'r cloddiau a'r cennin Pedr yn paratoi ar gyfer eu ffanffer blynyddol. Mae'r gwanwyn yn y tir. Gall hynny ond golygu un peth – bod cystadleuaeth rygbi'r chwe gwlad wedi cychwyn!

Roedd hi'n dipyn o sioc i bawb ganol Ionawr i ddeall bod Louis Rees-Zammitt i hedfan i Florida i chware pêl-droed Americanaidd yn yr NFL. Bu tipyn o ofid hefyd bod cynifer o sêr ifanc Cwpan y Byd ddim ar gael i'w dewis oherwydd anafiadau. Ond mae rhai wynebau newydd ymhlith y garfan – pob hwyl iddyn nhw. Ac yn eu plith mae un hen wyneb newydd.

Do, fe ddaeth Rob Howley, cyn-gapten Cymru a chyn-hyfforddwr cynorthwyol y tîm cenedlaethol a'r Llewod, nôl o'r cyrion i gymryd ei le wrth ochr Warren Gatland unwaith eto. Os nad 'ych chi'n dilyn rygbi efallai na fyddech chi'n ymwybodol o arwyddocâd hynny. Howley oedd hyfforddwr cynorthwyol Cymru pan oedden nhw i gystadlu yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd yn Japan yn 2019. Ond fe gafodd ei yrru adref cyn i neb gicio pêl.

Fe ddaeth hi i'r amlwg bod Mr Howley wedi bod yn torri'r rheolau ynghylch hapchwarae – betio. Roedd dros fil o gyhuddiadau yn ei erbyn. Fe'i dyfarnwyd yn euog gan awdurdodau'r gêm a chafodd ei wahardd am 18 mis.

Ond ymhen y rhawg fe ddaeth i'r amlwg nad dyn 'drwg' fel y cyfryw oedd Howley ond dioddefwr. Roedd wedi bod yn dioddef o gyflwr seicolegol. Roedd galar wedi ei lethu, bu'n isel ei ysbryd ac roedd nifer o ffactorau personol eraill yn gwasgu'n drwm arno. Roedd yr amgylchiadau anodd hyn wedi drysu ei feddwl a'i allu i wneud penderfyniadau call. Cyfaddefodd ei feiau a derbyniodd ei gosb.

Wrth baratoi ar gyfer gwasanaethau ar gyfer dechrau'r flwyddyn mae meddwl rhywun yn troi'n aml at y testun 'maddeuant'. Mae'n siŵr gen i y bu sawl cynulleidfa yn Ionawr yn canu emyn John Roderick Rees, *"I Dduw y dechreuadau rhown fawl am ddalen lân".* Mae Sul cyntaf y flwyddyn hefyd yn ein gwahodd i wrando ar adnodau cyntaf Efengyl Marc sy'n nodi bedyddio Iesu gan Ioan Fedyddiwr – bedydd edifeirwch a maddeuant oedd hwnnw.

Mae maddeuant yn un o elfennau craidd Cristnogaeth. Yn wir, mae'n elfen greiddiol yn y tair crefydd Abrahamaidd - Cristnogaeth, Iddewiaeth ac Islam.

O syrthio ar ei fai yn edifeiriol a thalu ei benyd fe dderbyniodd Rob Howley faddeuant y byd rygbi. Wedi i gyfnod ei waharddiad ddod i ben bu tîm rygbi Toronto yn drugarog wrtho ac yna cafodd ddyrchafiad i hyfforddi tîm cenedlaethol Canada. Yna, bedair blynedd yn ddiweddarach, mae e nôl yn ei hen swydd gyda thîm cenedlaethol Cymru.

Yn syml, fel 'na mae'r busnes maddeuant yma'n gweithio, am wn i. Ac o'r herwydd, os 'yn ni'n ddiffuant o edifar, yn cwympo ar ein bai ac yn dysgu'n gwersi, mae yna wastad ail gyfle i ni. Mae yna wastad gyfle i droi dalen lân a dechrau 'to. Fel 'na mae hi gyda Duw ac fel 'na ddylai hi fod gyda ninnau hefyd.

Felly, wrth i ni gamu'n dalog i'r flwyddyn newydd 'ma, fel chwaraewyr rygbi'n rhedeg mas i faes y gad, mae'n bwysig ein bod ni'n cofio hynny a bod yn drugarog – gyda'n hunain a chyda pobl eraill sy'n damsang ar ein traed ni o bryd i'w gilydd. Blwyddyn newydd faddeugar a thrugarog i ni gyd.

# Clonc a Phosau John Arfon

**Cydymdeimlad**

Bu farw un o gymeriadau blaenllaw Hendygwyn yn ddiweddar, sef John Davies, Pen yr Ardd, Gerddi'r Ffynnon. Bu John a'r teulu am flynyddoedd yn cadw Canolfan Arddio Ivydene lle y cafodd lwyddiant arbennig. Wedi ymddeol aeth i fyw i Glunderwen am beth amser, a bu'n ddiwyd yno hefyd yng nghwmni Laurence Bowen yn sicrhau llwyddiant Clwb Garddio Clunderwen a Llandysilio. Yna yn ôl i'w filltir sgwar neu'n fwy manwl efallai, i ben yr ardd !!

Roedd ganddo ddiddordeb ym mhob peth, yn gymwynaswr mawr, yn ymgomiwr o fri, a bu'n cystadlu ar limrigau gyda llwyddiant ar raglenni Shan Cothi ar Radio Cymru. Yn y blynyddoedd diwethaf roedd yn golofnydd garddio rheolaidd yn y Cardi Bach gan rannu o'i wybodaeth eang am arddio a ffermio. Diolch iddo am ei gyfeillgarwch a'i gyfraniad dros y blynyddoedd. Bydd colled mawr ar ei ôl.

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuanti i'w briod Nesta, ei holl blant, a'i wyrion yn eu profedigaeth.

**Mwy o hanes fy niwrnod cyntaf**

Gyda llaw roedd dau arall "peripatetig" (athrawon allanol cynorthwyol) yn dod i'r ysgol bob dydd Gwener, sef Mr Curtis o Gaerfyrddin oedd yn dysgu peth cerddoriaeth (ni allaf gofio ei enw cyntaf). Roedd yn werth ei weld yn y neuadd yn tarannu y grand piano yn y gwasanaeth boreol, gyda'r dwylo yn hofran fel eryr mawr uwchben y nodau i ddechrau "Nyni o Siroedd Dewi" sef cân yr ysgol. Yna, fel arfer tua amser egwyl y byddai Yvonne Watkin-Rees o Rydaman yn ymddangos yn ei holl ysblander, wedi gwisgo mewn dillad prydferth ac yn golur i gyd, ac yn dod i mewn i'r ystafell staff fel y Frenhines Sheba. 'Speech training' odd ei phwnc hi ac roedd yn ceisio cael y plant i siarad ac ehangu'n well. Byddai'r bechgyn pob tro yn cynhyrfu'n lân pan fyddai'n dweud wrthynt am "feel my diaphragm".

Yna ymlaen â gwersi y prynhawn. Cwrdd a 2A yn gyntaf a cheisio dysgu ychydig o wyddoniaeth gyffredinol iddynt. Nid oeddwn erioed wedi dysgu y pwnc o'r blaen ond roedd gennyf ddigon o gefndir mewn Cemeg a Ffiseg i wneud y gwaith yn weddol dda. Dosbarth gyda'r mwyafrif o'r plant yn seisneg oedd 2A, tra roedd fy nosbarth cofrestru i sef 2B yn Gymry Cymraeg. Ar ôl y wers hon, ymlwybro i gyfeiriad y Senior Centre (adeiladau prefab) oedd uwchlaw yr ysgol i ddysgu'r ddwy wers olaf. Pasio John Cook ar y ffordd oedd newydd fod yno yn dysgu a chofiaf ei eiriau am byth "best of luck". Rwy'n cofio llawer am y prynhawn hwn efallai, cwrdd 5LA a 5LB am y tro cyntaf. Roedd y bechgyn yn fawr a thal ac roedd yn dipyn o waith eu rheoli, ac roedd llawer o'r merched gyda mwy o ddiddordeb yn y bechgyn nag oeddynt mewn cael eu dysgu.
Yn y wers olaf gyda 5LB roedd hi'n frwydr ceisio eu rheoli a'u cadw yn dawel, Roedd rhai cymeriadau fel General, Fred a Fritz yn ceisio eu gorau glas i godi trwbl, a'r merched yn swnllyd. Roeddwn yn deall ystyr geiriau John Cook yn gynharach. Rwy'n siwr nad oeddynt wedi clywed acen y Gogledd o'r blaen. Beth bynnag, fe gedwais fy nhymer ac roeddwn yn eithaf balch i glywed cloch olaf y dydd yn canu.

Cerddais yn ôl rhyw ganllath lawr yr hewl i Dorset House y llety a fyddai yn ail gartref imi am rai blynyddoedd bellach. Mrs Ethel Higgon oedd y perchennog a rhaid imi ddweud fy mod wedi cael fy nhrin fel brenin yno. Roedd yn ddynes garedig tu hwnt a byddai hefyd yn cael un o fechgyn y banc i aros yno hefyd, felly tua 6 o gloch, byddem yn cael ein swper. Wrth lwc roedd lle ger ochr y tŷ imi gadw'r car yn saff yn lle ei fod ar y ffordd fawr.

(Yn y rhifynnau nesaf ceisiaf roi ychydig o fanylion amdanaf yn crwydro'r dref a dod i adnabod y siopau oedd yno ar agor yn yr amser hyn.)

**Dyma atebion y miss diwethaf**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | O | X | X | O | X |
| O | X | O | X | X | O |
| X | O | X | O | O | X |
| O | X | O | X | O | X |
| X | X | O | O | X | O |
| X | 0 | X | O | X | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | 1 | 4 | 6 | 9 | 8 | 7 | 5 | 2 |
| 8 | 9 | 7 | 1 | 5 | 2 | 3 | 4 | 6 |
| 6 | 5 | 2 | 7 | 3 | 4 | 1 | 9 | 8 |
| 4 | 3 | 5 | 2 | 7 | 1 | 8 | 6 | 9 |
| 9 | 2 | 1 | 3 | 8 | 6 | 5 | 7 | 4 |
| 7 | 8 | 6 | 9 | 4 | 5 | 2 | 3 | 1 |
| 2 | 4 | 8 | 5 | 6 | 3 | 9 | 1 | 7 |
| 5 | 6 | 9 | 8 | 1 | 7 | 4 | 2 | 3 |
| 1 | 7 | 3 | 4 | 2 | 9 | 6 | 8 | 5 |

Dyma atebion pôs y mis diwethaf gyda'r atebion i gyd yn dechrau gyda'r llythyren B.
1. Bugeiliaid, 2. Bywgraffiad, 3. Bedwyr, 4. Biwmares 5. Burum, 6. Blodwen, 7. Brithyll, 8. Blaenplwyf. 9. Bachwr. 10. Blaenwern. 11. Brysneges, 12. Betsi, 13. Branwen, 14. Brad, 15. Blwyddyn.

Yr ail bôs oedd ceisio datrys atebion y Chwilrif Mawr.

Dyma'r atebion


| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 4 | 6 | 2 | 11 | 7 | 10 | 5 | 3 | 12 | 8 | 9 |
| 5 | 11 | 12 | 8 | 4 | 2 | 9 | 3 | 10 | 7 | 1 | 6 |
| 3 | 10 | 9 | 7 | 6 | 1 | 8 | 12 | 2 | 4 | 5 | 11 |
| 10 | 7 | 2 | 5 | 1 | 11 | 6 | 4 | 9 | 3 | 12 | 8 |
| 12 | 1 | 8 | 4 | 7 | 3 | 5 | 9 | 6 | 2 | 11 | 10 |
| 9 | 6 | 3 | 11 | 10 | 8 | 12 | 2 | 5 | 1 | 7 | 4 |
| 7 | 3 | 11 | 1 | 9 | 6 | 2 | 8 | 4 | 5 | 10 | 12 |
| 8 | 5 | 10 | 6 | 12 | 4 | 11 | 7 | 1 | 9 | 2 | 3 |
| 2 | 12 | 4 | 9 | 3 | 5 | 1 | 10 | 11 | 8 | 6 | 7 |
| 6 | 8 | 5 | 12 | 2 | 9 | 3 | 11 | 7 | 10 | 4 | 1 |
| 11 | 9 | 7 | 10 | 5 | 12 | 4 | 1 | 8 | 6 | 3 | 2 |
| 4 | 2 | 1 | 3 | 8 | 10 | 7 | 6 | 12 | 11 | 9 | 5 |

**Dyma Cwrosw a Chwilrif i'ch diddori**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | O | | | X | |
| X | | | | | |
| | | X | | X | |
| O | | | | | |
| | | | O | | X |
| | O | X | | | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 3 | | | | |
| 6 | 4 | | | | 5 | 7 | | |
| | | | | | 6 | 4 | | 2 |
| | 8 | | 2 | | 7 | | | |
| | | | | | | 6 | 3 | |
| | 7 | 6 | | 1 | 9 | | 4 | |
| | | | 6 | | | | | |
| 4 | 9 | 8 | | 2 | | | | |
| | | | | | | 5 | 9 | 1 |

Mae dau bôs ichwi y mis hwn. Tybed a fedrwch gwblhau cloc y cwch gwenyn? Mae'n rhaid i bob ateb fynd o gwmpas rhif y cwestiwn a dilyn dwylo'r cloc (clocwedd). Hefyd, bydd dwy lythyren o'r ateb yn rhan (yn rhywle) o'r ail ateb, ac yn y blaen hyd nes dod i'r diwedd. Mae ateb rhif 1 yn dechrau gyda'r llythyren a ddangosir. Yn ôl yr arfer, cymerir ch, dd, ff ac yn y blaen fel un llythyren.





**Dyma'r cliwiau**

1. Dydd y Groglith
2. Tref ym Mhatagonia
3. Pamffledyn
4. Heb fod yn broffesiynol.
5. Rhestru'n fanwl
6. Bwriadu
7. Dehongli neu egluro
8. Darn hir main o fetel
9. Mynnu
10. Rhywbeth o bwys
11. Adnabyddus
12. Trueni

**Yr ail bôs yw canfod y person**

Atebwch y cliwiau a roddir a rhoddwch yr atebion yn eu llefydd priodol yn y grid. Yna cymerwch y llythrennau sydd yn y blychau llwyd ac ail-drefnwch hwy a'u rhoi i mewn yn y blychau gwag sydd yn Rhif 6 ar draws.
Os gwnewch hyn yn gywir fe gewch yr ateb i "Pwy yw'r Person ?"




Ar. Draws
1. Defnydd golchi.
3. Haearn
4. Hylif o simne
6. ? ? ?
7. Sychwr traed.
9. Cartref aderyn
10. Darpariaeth

I Lawr
1. Talaith
2. Diffyg.
3. Rhan o enillion eglwys.
5 . Pris.
8. - bo dau
9. Mae hwn yn y nen.

# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk


Annwyl ddarllenwyr,

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n weddol iach ac yn ddiogel. Diolch i'r nifer ohonoch sydd eisoes wedi ymaelodi â'r clwb a braf yw cael croesawu aelodau newydd i'n plith eleni eto. Serch hyn, gofynnaf yn garedig i'r ffyddloniaid hefyd i ymaelodi mor gynted ag y bo modd, er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus i'r clwb ac yn hynny o beth, cefnogi'n papur bro.

Mae dod yn aelod yn rhwydd - danfonwch siec i mi am £10 gyda'ch enw a chyfeiriad, neu allwch dalu drwy system BACS y banc. Y manylion sydd angen arnoch yw 40-46-27 a 91020765 a'ch enw chi fel cyfeirnod. Os ydych am dalu fesul archeb banc, cysylltwch â mi am ffurflen.

Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth a chadwch yn ddiogel,

*Rhian*




PASTAU TATO A CHENNIN

Cynhwysion:-
1½ pwys o dato ▪ 8 owns o facwn
1/2 peint o hufen sengl ▪ Caws wedi ei ratio
1 ½ pwys o gennin ▪ Halen a phupur ▪ 3 wy

**DULL:-**

1. Twymwch y ffwrn ymlaen llaw - 180ºC / 350ºF.
2. Torrwch y tato yn giwbiau bach a'u coginio mewn dwr berw.
3. Torrwch y cennin yn ddarnau a'u rhoi mewn dysgl addas i ffwrn.
4. Torrwch y bacwn yn ddarnau a'u rhoi yn y ddysgl gyda'r cennin - cymysgwch.
5. Curwch yr wyau a'r hufen ac ychwanegwch i'r gymysgfa.
6. Rhowch y tatws ar y top ac yna'r caws drostynt. Coginiwch am 50 munud.

# Corlan

**Anrhegu Jill a Rosemarie.**

Cyflwynodd Aled Eynon, Cadeirydd 'Corlan', rodd i Jill Lewis am ei gwasanaeth fel ysgrifenyddes i'r côr ers ei sefydlu yn 2007, ac i Rosemarie Davies am ei gwasanaeth fel trysoryddes yn ystod y naw mlynedd diwethaf. Dymuna'r côr ddiolch yn fawr i'r ddwy am eu gwaith arbennig dros y blynyddoedd.



Yn y llun mae Jill a Rosemarie, Aled, y Cadeirydd, Ceirios Jenner, yr arweinyddes a Heather Jenkins, y gyfeilyddes.

**Cyfraniadau**

| | |
|---|---|
| Sally Davies, Lluest, Pwll Trap | £10 |
| Emrys Morgan, Sarnbwla Forge, Bancyfelin | £10 |
| Brenda Williams, Oban, Hendygwyn | £10 |
| Llinos Thomas, Carreg Lwyd, Llangynin | £10 |
| Veronica Griffiths, Mynachlogddu | £10 |
| Aerona Edwards, Maenclochog | £10 |

*Diolch yn fawr*



WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn. 01437 563300

IFAN DAVIES
Saer Coed



Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469

W.J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
Blaenwern, Clunderwen
Ffôn: 01437 563319

# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbott*

Dyma rywbeth i chi ar mis y Corach. Peidwch ag edrych yn y geiriadur nes i chi wedi'u cwblhau.

Gyda llaw, allwch chi weld y camgymeriad dwi wedi gwneud yn fwriadol wrth gwrs.

*Pob lwc, Albie*

**Edrychwch ar y geiriau a ganlyn a thanllinellwch y ffurf gywir:-**

| | |
|---|---|
| 1. cymhleth | cymleth |
| 2. ystyrrir | ystyrir |
| 3. cyd-fyw | cydfyw |
| 4. ers meitin | ers meityn |
| 5. chwibanodd | chwibannodd |
| 6. telynau | telynnau |
| 7. ffrwydrad | ffrwydriad |
| 8. diwidrwydd | diwydrwydde |
| 9. crynhodeb | crynodeb |
| 10. darlunnir | darlunir |
| 11. ruban | rhuban |
| 12 uwch ben | uwchben |
| 13. diwylliannol | duwyllianol |
| 14. cloion | cloeon |
| 15. ehangderau | eangderau |
| 16. Gorffenaf | Gorffennaf |
| 17. cynyddu | cynhyddu |
| 18. tyddynwr | tyddynnwr |
| 19. gwaeddu | gweiddi |
| 20. derbynnir | derbynir |
| 21. ffynonellau | fynnonellau |
| 22. torir | torrir |
| 23.prinnaf | prinaf |
| 24. cylchgronnau | cylchgronau |

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk




Adrian Llewellyn

Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
CLUDIANT

Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937


# MERCHED Y WAWR

## Cangen San Cler

Croesawyd pawb i'r cyfarfod yn yr Hen Ysgol ar Ionawr 9fed gan yr is-lywydd Eileen. Roedd 17 o aelodau'n bresennol. Dymunwyd yn dda i Marian yn dilyn ei llaw-driniaeth a Beti sydd yn yr Ysbyty yn Llanelli wedi torri ei phigwrn.

Apêl Cronfa i Bawb yr Urdd -Penderfynwyd yn y cyfarfod diwethaf y byddai'r gangen yn noddi plentyn difreintiedig lleol i fynychu Gwersyll yr Urdd. Derbyniwyd cyfraniadau o £5 yr aelod gyda'r gangen i dalu y gweddill.

Cyflwynodd Eileen Dr Nia Bowen, y siaradwr am y noson. Wedi ei geni a'i magu ym Mancyfelin fe hyfforddodd Nia fel meddyg yng Nghaerdydd ac Abertawe gan weithio fel patholegydd cyn symud yn ôl i'r Gorllewin i fagu ei theulu. Mae bellach wedi hyfforddi a sefydlu busnes BODA sef acwbigo meddygol. Difyr iawn oedd gwrando arni yn son am hanes acwbigo ac am ei harbenigedd hi, acwbigo meddygol, lle mae hi'n medru defnyddio ei gwybodaeth a'i phrofiad meddygol i drin cleifion. Soniodd am y clefydau a'r cyflyrau mae'n medru eu trin a sut mae'n mynd ati i drin ei chleientiaid yn ystod apwyntiad. Bu hefyd yn son am y sesiynau yoga mae'n eu harwain.

Diolchodd Nia Lewis i Nia Bowen ar ran y gangen am noson ddifyr, ddiddorol ac addysgiadol.

Raffl – rhoddedig gan Rita, enillwyd gan Jane.

Mwynhawyd lluniaeth blasus iawn unwaith eto a baratowyd gan Sue o'r Hen Ysgol.

---

## Cangen Beca

Ar brynhawn Iau, Ionawr 11eg croesawodd Angharad bawb i gyfarfod cyntaf 2024, gan dymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

I ddechrau'r flwyddyn, braf oedd croesawu Carol Owen atom. Gweithio i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro mae Carol o ddydd i ddydd. Bu'n sôn am ei gwaith drwy ddangos lluniau o'r Parc hyfryd. Gwnaethom sylweddoli mor lwcus ydym i gael y cwbl oll ar stepen ein drws. Diolchwyd i Carol am brynhawn diddorol iawn.

Gwnaethom gyfarfod eto ar brynhawn Iau, Chwefror 8fed. Ar fyr rybydd iawn bu rhaid ail drefnu'r cyfarfod.
Gofynodd Angharad i Rhidian Evans a Dafydd Vaughan o Fenter Iaith Penfro i'n helpu. Chwarae teg iddynt, gwnaethant anfon cwis atom ar fyr rybudd iawn. Mae ein diolch yn fawr iddynt. Cawsom tipyn o hwyl yn cyrraedd yr atebion cywir i'r cwis. Rhaid dweud bod aelodau eitha clyfar yng nghangen Merched y Wawr Beca.

Yn ystod y ddau gyfarfod, buom yn trafod materion y Mudiad. Rydym yn cofio am ddwy gyn aelod a fu farw ym Mis Ionawr. Cydymdeimlwn â theulu Heulwen Thomas, a theulu Jean Jones. Coffa annwyl amdanynt.

Enillodd Anona raffl Mis Ionawr, ac Eilir raffl Chwefror.
Yn ôl yr arfer mwynhau paned, cacen a chlonc i orffen y cyfarfodydd.

---

## Cangen Gronw

Cyfarfu'r aelodau yn Llety Cynin ar brynhawn Mercher, Ionawr 24ain. Ar ôl mwynhau pryd ysgafn o fwyd gwnaed y trefniadau terfynol ar gyfer y cyfarfod nesaf, sef Dathlu Gŵyl Ddewi yng Nghaffi Beca am 1 o'r gloch. Y gŵr gwadd fydd Mr Vernon Beynon. Treuliwyd orig wedyn yn cloncan a rhoi'r byd yn ei le! Prynhawn dymunol iawn.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i Gwmni
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

# Colofn Llên

*gan Marian Thomas*

Rwy'n ffodus fy mod yn cael treulio ambell brynhawn yn darllen i Lyfrau Llafar y deillion. Mae ambell lyfr yn fwy heriol, ambell un yn emosiynol a rhaid yw atal y recordio i reoli'r llais. Un felly oedd cyfieithiad Sian Northey o hunangofiant John Sam Jones – ***Y Daith ydi Adra-*** a hynny'n bennaf oherwydd y driniaeth greulon a dderbyniodd fel dyn hoyw yn ysbyty meddwl Dinbych. Efallai i chi ei weld yn adrodd ei hanes ar raglen Stifyn Parri *Paid â Dweud Hoyw* fis Rhagfyr diwethaf. Bu fy nhad yn gaplan ar yr ysbyty hwnnw pan oeddem yn byw yn Rhuthun a byddwn yn mynd gydag e yn y car weithiau. Mae'n hanes dirdynnol ac yn peri i rywun feddwl am yr angen am well dealltwriaeth - gwerth ei ddarllen.

Roedd rhywun wedi gwneud cais am nofel Megan Hunter, ***Tu ôl i'r awyr*** gan iddi ennill Llyfr y Flwyddyn ddwy flynedd yn ôl. Dyma'r fwyaf heriol i'w darllen, yn gyntaf oherwydd ei hyd; yna'r byrfoddau sydd mor gyfarwydd i'r ieuenctid ond nid i mi – roedd angen addysgu fy hun o'r rheini – gan nad oedd modd rhoi'r byrfoddau yn unig ar lafar! A wyddoch chi beth yw *ffs,idk,ngl,tbf,tbh,wtf* er enghraifft? Rhaid cyfaddef yma i mi gael blas ar regi'n barhaus hefyd! Mae'r penodau'n pendilio rhwng y ddau brif gymeriad sy'n ddisgyblion chweched dosbarth - penodau Deian yn adlewyrchu ei iaith raenus ond penodau Anest yn adlewyrchu ei bratiaith. Roeddwn wedi darllen y nofel hon cyn ei recordio ac er yn anodd i'w darllen ar y dechrau mae'n ysgytwol yn ei hymwneud â heriau iechyd meddwl ieuenctid. Dywed Manon Steffan Ros yn y broliant ei bod 'yn fwy na nofel – mae'n brofiad llenyddol hollol newydd,' a gwir hynny.

Y llyfr a orffennais fis Tachwedd oedd cofiant Ilid Anne Jones i ***Leila Megáne, ei dawn a'i stori.*** Fel un a ymddiddorai mewn canu roedd ei henw'n gyfarwydd fel ei gŵr, Osborne Roberts, cyfansoddwr *Y Nefoedd, Cymru Annwyl* a *Pistyll y Llan.* Yn ugeiniau a thridegau'r ganrif ddiwethaf bu'n hyfforddi a pherfformio ar y cyfandir ac yn Efrog Newydd, lle priododd â'r cyfansoddwr Osborne Roberts. Er iddi deithio'n helaeth, cymysgu â phwysigion yr oes gan gynnwys Lloyd George fe gafodd fywyd digon heriol. Blwyddyn cyn fy ngeni innau fe ail briododd yng Nghapel Seion Llanrwst lle priodais innau ac yn y fan honno hefyd y cwrddais â John Arfon ni am y tro cyntaf! Ceir llun ohoni yn rhannu llwyfan gyda'r tenor Richie Thomas ac rwy'n ei gofio yntau. Nid oedd yn llyfr hawdd i'w ddarllen, gyda thipyn o ddyfynnu Saesneg o hunangofiant y gantores a chynifer o enwau a theitlau Ffrangeg ac Eidaleg ond rhaid edmygu ymchwilio trylwyr awdur y cofiant hwn – ceir 3-7 tudalen o gyfeiriadau ar ddiwedd pob pennod. Ni ddarllenais y rheini wrth reswm ond ofnaf na fydd y gwrandawyr yn medru gwerthfawrogi ei hysgolheictod.

Mynnais nofel i'w darllen wedyn ac un ddifyr oedd hi hefyd – ***Braw agos*** gan Sonia Edwards – nofel dditectif ond ychydig yn anarferol gan fod pob pennod yn adrodd hanes llofruddiaeth a herwgipio o safbwynt wyth cymeriad gwahanol sydd ar brydiau braidd yn gymysglyd ond mae'r cymeriadu'n effeithiol, y dweud yn aml yn ffraeth ac nid oes modd datrys y dirgelwch tan y diwedd. Mae fel darnau o jigso ac ni ddaw'r darlun i'r golwg tan y diwedd sy'n cynnal chwilfrydedd ac mae elfen o stori garu rhwng y ddau sy'n ceisio datrys dirgelwch y corff yn Llyn Cedor.




LYNDON GEORGE

ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL

MOT

•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4

Offer Diagnostig Diweddaraf





Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin

Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

•RHANNAU SPAR •GWASANAETH •TEIARS •BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN •TYMHERU AER

Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313

Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP



Preselistorage cyf.

Containers ar werth neu i'w llogi

Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159

GORSAF BETROL PRESELI CYF.

Llanddewi Efelffre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd

Olew dros Gymru Oil4Wales

LONDIS

01834 860227






R. M. JONES

CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD

Bridge End House
Clunderwen

Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com



LLAWN CARIAD

Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

# Ymgyrch Codi Cerflun Twm Carnabwth

Mae'r ymgyrch codi arian yn mynd yn ei flaen yn hwylus, rydym wedi codi £11,070 erbyn hyn, sy'n wych, ond y gobaith yw y gallwn godi llawer mwy, er mwyn peidio dibynnu'n ormodol ar grantiau. Rydym yn bwriadu cyflwyno ceisiadau grant yn ystod yr wythnosau nesaf, yn ogystal ag estyn gwahoddiad i ddarpar gerflunwyr ddangos diddordeb i ymgymryd â'r gwaith o greu cerflun o Twm Carnabwth. Cynhelir cyfarfod cyhoeddus yng Nghaffi Beca yn fuan er mwyn rhoi diweddariad i bawb ac i drafod syniadau.

Dyma restr o'r cymdeithasau diweddaraf sydd wedi cyfrannu yn ystod yr wythnosau diwethaf, diolch o galon iddynt am eu cefnogaeth:-

Cyngor Cymuned Gorllewin Llandysilio - £25

Mae nifer o unigolion wedi cyfrannu hefyd ac rydym yr un mor ddiolchgar iddynt hwy am eu haelioni. Os nad ydych wedi cyfrannu hyd yn hyn, mae dal cyfle a croeso i chi wneud! Ma modd cyfrannu drwy'r ddolen gofundme ar dudalen facebook Codi Cerflun Twm Carnabwth; gwneud taliad arlein yn uniongyrchol i fewn i gyfrif banc Cymdeithas Cwm Cerwyn ar y manylion canlynol 30 91 65 01036767; neu drwy anfon siec ataf i, Eurfyl Lewis, Lluest, Llanglydwen, Hendy Gwyn ar Daf, SA34 0XP. Diolch mlan llaw am eich cefnogaeth, gwerthfawrogir pob cyfraniad yn fawr iawn.

# Cylchgrawn Cristion

**Tîm golygyddol newydd**

Ar gyfer rhifyn Gorffennaf 2024 o Cristion, yn dilyn cyfnod llwyddiannus o dan olygyddiaeth Carwyn a Nerys Siddall a Dylan Rhys, bydd Heulwen, Eurfyl a Siân yn cymryd at yr awenau. Diolchwn am eu parodrwydd i gymryd at yr olygyddiaeth, a dymunwn yn dda iddynt.

**Heulwen Anne Evans**

Mae Heulwen yn wreiddiol o Langyndeyrn, wedi cael ei magu ar fferm odro. Symudodd i Fangor i astudio'r Gyfraith am bedair blynedd. Ymhen amser teimlodd alwad i astudio Diwinyddiaeth a symudodd i Fryste i astdidio ar gyfer gradd mewn Diwinyddiaeth, Gweinidogaeth a Chenhadaeth. Erbyn hyn mae'n offeiriad mewn gofal o chwe Eglwys yn ardal weinidogaeth leol Dyffryn Teifi ac yn byw yng Nghastell Newydd Emlyn.

**Sian Elin Thomas**

Mae Sian Elin yn weinidog llawn amser ar Ofalaeth Bro Cemaes Dyffryn Teifi gyda'r Bedyddwyr. Mae hefyd yn gwasanaethu fel caplan i gartref preswyl Glyn Nest yng Nghastell Newydd Emlyn. Cyn mynd i'r weinidogaeth bu'n gweithio yn Ysgol y Frenni yng Nghrymych, Sir Benfro fel cynorthwywraig dosbarth am 19 mlynedd, Mae'n byw yn Crymych, yn briod gyda Dylan ac mae ganddynt dau fab, Iwan a Steffan.

**Eurfyl Lewis**

Mae Eurfyl yn byw yn Llanglydwen, Sir Gar. Bu'n gweitho i'r Urdd yn Sir Benfro am bron i 30 mlynedd, cyn derbyn diswyddiad gwirfoddol, gan roi fwy o amser iddo fwynhau cerdded llwybr arfordir Penfro a mynyddoedd y Preseli. Mae'n ysgrifennydd Capel Calfaria Login, Llywydd Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion, yn gadeirydd a golygydd papur bro Y Cardi Bach ac yn gadeirydd Cymdeithas yr Hoelion Wyth. Mae'n briod gyda Jill ac mae ganddynt dri o blant sef Ifan, Elen a Tomos ac un ŵyr bach o'r enw Twm Elias.







GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

TAF
AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7-12.00
MASNACHWYR ADEILADU
Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr
Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

# Agor hen lwybr rheilffordd y Cardi Bach i feicwyr a cherddwyr

Ar ddydd Mercher, Ionawr 16eg cynhaliwyd cyfarfod agored yn Neuadd adran gynradd Ysgol Bro Preseli i gyflwyno cynlluniau i agor llwybrau newydd i gerdded ac i seiclo yn yr ardal. Esboniwyd bod trefniadau ar y gweill i agor llwybrau ar ddwy adran o hen reilffordd y Cardi Bach, sef o Grymych i Llanfyrnach ac o Llanglydwen i Rhydowen.

Roedd yna ddau gyfarfod, un am ddau a'r llall am bump o'r gloch pan ddaeth tua chant a hanner o bobl ynghyd i gefnogi'r fenter. Cafwyd trafodaeth adeiladol wedi i aelodau Sustrans esbonio'r ffordd ymlaen. Felly edrychwn yn eiddgar i groesawu'r datblygiadau dros y flwyddyn nesaf.




**Hen feinciau GWR yn cael bywyd newydd ar Orsaf Login**



Dros y gaeaf mae 'na gydweithrediad rhwng dwy gymdeithas leol sef "Cymdeithas Rheilffordd y Cardi Bach a Chymdeithas Sied Dynion y Frenni, Hermon wedi dwyn ffrwyth. Mae'r dynion yn Hermon wedi ail adeiladu dwy fainc GWR yn ol i'w cyflwr gwreiddiol ac fe fyddant yn cael ei defnyddio yng Nghanolfan Treftadaeth y Cardi Bach yn Login. Diolch yn fawr iawn i'r dynion am ei gwaith ardderchog. Diolch hefyd i Mrs Ann Jones, Blaenffos am gyflwyno un o'r meinciau a oedd yn wreiddiol ar orsaf Aberteifi i Gymdeithas y Cardi Bach.



Bechgyn Hermon a'r fainc yn Login




Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON
A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH,
SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SIÔN HARRIES
SEIRI COED
EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED
FFÔN:-
01994 240857

# MEIDRIM

**Henoed**

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol ar Chwefror 6ed yn Neuadd Ieuenctid Meidrim.
Yn dilyn, cawsom brynhawn o chwarae Bingo dan arweiniad Glyn Rees o Sanclêr. Roedd yn brynhawn hwylus a phawb wedi mwynhau.
Ar ddydd Mercher, Mawrth 6ed byddwn yn cael ein Cawl i ddathlu dydd ein Nawddsant yng Nghlwb Rygbi Hendygwyn. Pawb i fod yno erbyn 1 o'r gloch y prynhawn. Yn rhoi raffl fydd Steph Davies, Doreen Thomas, Sheila Jones a John Lewis.

**Diolch**

Hoffai Emrys Morgan, Sarnbwla Forge, ddiolch am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd, a hefyd diolch i bawb a oedd wedi galw neu ffonio ar adeg ei benblwydd yn 80 oed ar Ionawr 12fed. Gwerthfawrogir caredigrwydd pawb yn fawr.

# PWLL TRAP

**Bethlehem Newydd**

Mae'r gwaith o adnewyddu'r capel yn dod yn ei flaen yn dda. Cynhaliwyd oedfaon Ionawr 14eg a Chwefror 4ydd yn y Gât. Cafwyd oedfaon bendithiol gyda'r aelodau yn cymryd rhan a myfyrdodau gan y gweinidog. Diolch i Rhodri a Marian am baratoi'r oedfaon ac i Dai Rees am gyfeilio.

Mae Undeb yr Annibynwyr wedi trefnu sesiynau hyfforddi ar draws Cymru ac mae cyfle i'r ardal hon fynychu'r sesiynau yn Festri Cana. Yn oedfa Ionawr cafwyd adborth gan Beti-Wyn ar yr hyfforddiant ar weddi a llywiodd y gweinidog drafodaeth ddifyr ar y testun. Mae lluniaeth ysgafn a chyfle i gymdeithasu wedi bod yn braf yn dilyn yr oedfaon. Diolch i'r rhai sydd wedi bod wrthi yn paratoi a gweini'r lluniaeth.

Derbyniwyd tystysgrifau oddi wrth Apêl Toilet Twinning, lle'r anfonwyd casgliad yr Oedfa Nadolig. Defnyddiwyd yr arian i ddarparu toiledau yn Tanzania, Uganda a Zimbabwe.

Dymunwn yn dda am wellhad buan i Sian Lewis, Fferm Dollaston, Cas-wis, sydd wedi syrthio a thorri ei phigwrn.
Mae Mair a Jim Davies, Gors Fach hefyd wedi syrthio. Dymunwn wellhad buan iddyn nhw hefyd.

Penblwydd hapus a llongyfarchiadau i Howell Jones, Courtlands a oedd yn 75 oed ar Chwefror 11eg.

Noson yng nghwmni
**Cleif Harpwood a Geraint Cynan**
**Bethlehem Pwll Trap**
**Ebrill 10fed 2024**
**am 7.30**
**£6 a £3 i blant a myfyrwyr**
*Cefnogir gan Gynllun Noson Allan, Cyngor y Celfyddydau*

# SAN CLER

Cydymdeimlwn â theulu Wernos Bowen o Feidrim a fu farw yn ddiweddar. Mae rhai o'i blant ac wyrion ynghyd a'i chwaer yn byw yn San Cler.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mair Evans, Newlands, Heol yr Orsaf yn 85 oed. Roedd Mair yn adnabyddus yn San Cler, wedi gweithio am flynyddoedd gyda chwmni O.J. Williams, yn aelod ffyddlon a gyda'i chwaer Amy, yn cadw cyfrifon Capel y Trinity, a bu'n canu am flynyddoedd gyda Chôr San Cler a Kor-uzz. Cydymdeimlwn yn ddidwyll â'i gŵr Hugh, y plant Delyth a Robert a'u teuluoedd a hefyd, gyda'i chwaer Amy Adams a'r teulu oll.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu y diweddar Janet Rees a fu farw yng Ngogledd Lloegr. Fe fagwyd Janet gan ei mamgu, Mrs. Owen, yn Corvus Terrace a bu'n byw am flynyddoedd yn Lon Hafren a Gors Fach cyn symud i ardal Leeds yn ddiweddar.


Cydymdeimlwn â Gareth Davies, Y Wenllys, Lloyd ac Eryth Davies, Heol Salem, a Lyn a Bethan Davies, Derlwyn Taf, a'u teuluoedd ar farwolaeth eu chwaer, Dorothy Evans, Llysonnen, Bancyfelin.

Penblwydd Hapus i Dewi Griffiths, Cartref Clyd, Lôn Hafren, ar ddathlu ei benblwydd yn 93 oed ar Chwefror 16eg. Cyfarchion a chariad wrth y teulu i gyd.

**C J Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com

Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
***Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.***
***Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.***
Ffôn: 01994 419230

*G WILLIAMS*
*a'i FEIBION*
Monumental Masons

*SEIRI MEINI COFFA*
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

## Cyngor Tref San Cler




Mae Cyngor Tref Sanclêr wedi dechrau Croeso Cynnes eto bob dydd Iau yn y Gât tan bydd caffi yno. Cyfle i gael dished a chlonc, cyfarfod ffrindiau a gwneud rhai newydd. Popeth am ddim. Croeso i bawb 10.30 tan 2.00.

Trefnwyd sesiwn i blannu coed ar lan yr afon yn Sanclêr ar hyd llwybr Ffordd Peillac ar y cyd rhwng Cyngor Tref Sanclêr a Chyngor Sir Gâr. Diolch i Gus Hellier o Coed Cymru am ddarparu coed ac i'r Cyng. Fiona Lanc am gydlynu'r cyfan. Plannwyd 120 o amrywiol fathau o goed gan ddisgyblion Blwyddyn 6 o Ysgol Griffith Jones. Cafodd pawb amser da yn dysgu llawer am goed. Bydd yr ardal yn elwa'n fawr o hyn.



Daeth y gymuned ynghyd ar fore Dydd sadwrn i barhau gyda'r plannu. Llwyddwyd i blannu 300 o goed i gyd. Gobaith y Cyngor Tref yw ffurfio Grŵp Amgylchedd er mwyn parhau gyda'r math yma o waith. Enghraifft wych o'r Cyngor Tref yn gweithio gyda'r gymuned.





# BLAENWAUN

**Moriah**

Diolch i'n gweinidog y Parchedig Gareth Ioan am gymun arbennig ar Sul, 4ydd Chwefror.
Neges yr oedfa oedd edrych ar bethau positif o fewn yr eglwys Gristnogol ar draws y byd.
Chwefror 25ain. Brecwast Gŵyl Ddewi yng Nghaffi Beca am 10 o'r gloch. Nifer o'r aelodau am fod yn bresennol. Disgwylir y Prifardd Tudur Dylan i roi anerchiad.

Mawrth 3ydd: Gwasanaeth Gŵyl Dewi am 1.30 - Parchedig Gareth Ioan.
Mawrth 31ain: Cymun undebol ym Mryn Iwan am 2.00 - Parchedig Gareth Ioan.

# CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**

Diolch i'r Parch. Huw George a Tudur Dylan am eu gwasanaeth yn ddiweddar.

Trefn oedfaon mis Mawrth
3ydd: Oedfa Gymun - Annalyn Davies - 10.30
10fed: Oedfa dan ofal y Parch. Huw George - 10.30

**Penblwydd**

Penblwydd hapus i un o ffyddloniaid Ramoth sef Roy Reynolds, Tymore, Llangynin yn 90 oed ar Fawrth 11eg. Dymuniadau gorau iddo.

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

# LLANGYNIN

**Gwellhad buan**

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Gerwyn Griffiths, Dôl-y-dderwen, sydd wedi cael dod adref unwaith yn rhagor ar ôl treulio cyfnod arall yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn yn fawr â Mary a Granville Davies, Angorfa, a Nigel a Sian, Gareth, Carys a Jo, Llain Deg, wedi i Mary golli ei chwaer, Hilda Howells (gynt o Penlan House) a fu farw yn dawel yn Angorfa ar Ionawr 22ain.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Rob a Jess Jordan Moffatt, Blaenpant, ar enedigaeth eu merch fach, Elin, ar Ionawr 26ain, chwaer fach i Berwyn......

.....hefyd i Mark ac Annette Richmond, Glannant, sydd wedi dod yn famgu a thadcu am y tro cyntaf. Ar Ionawr 11eg ganed merch fach i Emma a Jason Edwards sy'n byw yng Nghana, Bancyfelin.

.....hefyd i William a Hanna Griffiths, Blaencorse, ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, bachgen bach o'r enw Harri John Griffiths, Ganwyd Harri ar Chwefror 8fed. Mae Harri yn ŵyr i Linley a Marian Griffiths, Glascoed ac yn or-ŵyr i Gerwyn Griffiths, Dol-y-dderwen Llongyfarchiadau mawr i'r teulu oll.

**Neuadd Capel y Bryn**



Fore ddydd Sadwrn, Chwefror 3ydd, daeth nifer o drigolion Llangynin i gwrdd â'i gilydd yn y Bryn a chael cyfle i fwynhau sgwrsio a chymdeithasu dros baned. Roedd yn gyfle ardderchog i ddod i adnabod cymdogion sydd wedi symud i fyw yn y pentref yn ddiweddar. Diolch i Wade ac Alex Coope a theulu Derlwyn am baratoi'r lluniaeth a diolch i bob un am eu cyfraniadau. Bwriedir cynnal Bore Coffi yn y Bryn unwaith y mis ar fore ddydd Sadwrn yn ystod misoedd oer y gaeaf ac efallai mentro allan i Gae Chwarae'r pentref am bicnic yn ystod yr haf.

**Dyweddïad**



Llongyfarchiadau gwresog i Elin Haf a Sion Skinner ar eu dyweddïad ar ddechrau'r mis. Mae Elin Haf Jones yn ferch i Aled a Hefina Jones, Ger-y-Bryn. Pob hapusrwydd a dymuniad da i'r ddau ohonynt ar gyfer y dyfodol.

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**
**Pwyllgor Neuadd Capel y Bryn**

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Pwyllgor Rheoli Neuadd Capel y Bryn yn y Neuadd nos Iau, Chwefror 22ain, am 7 o'r gloch yr hwyr.

**Noson Gawl**

Cynhelir Noson Gawl i ddathlu Gŵyl Ddewi yn y Neuadd nos Fercher, Mawrth 6ed am 7 o'r gloch yr hwyr. Dewch i fwynhau basnaid o gawl twym, bara a chaws, pice ar y maen a chwpanaid o de neu goffi yng nghwmni cyfeillion. Bydd aelodau Côr Meibion Caerfyrddin yn dod i'n diddanu, a chynhelir raffl ar y noson. Cofiwch ddod â basin a llwy gyda chi os gwelwch yn dda. Pris: £7 yr un i oedolion; plant oedran ysgol gynradd am ddim. Dewch yn llu i ymuno yn yr hwyl – croeso i bawb!

**Pen blwyddi arbennig**

Llongyfarchiadau lu i Roy Reynolds, Tymore, a fydd yn cyrraedd carreg filltir arbennig ar Fawrth 11eg pan fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 90 oed.

Llongyfarchion hefyd i Caroline Jones, Maesycoed, a fydd yn dathlu ei phen blwydd arbennig yn 50 oed ar Fawrth 21ain.

Dymuniadau gorau am ben blwydd hapus iawn i'r ddau ohonynt wrth iddynt ddathlu yr achlysuron arbennig hyn mewn steil!


arwyddion
eaglesigns
Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau...
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY
07456 626 735

STEVE DANIELL
Monraker
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

## Penblwydd Hapus yn 90 oed



Penblwydd hapus iawn i Hen-Dadcu sef Roy Reynolds, Tymore, Llangynin yn 90 oed ar yr 11fed o Fawrth. Llawer o gariad, Efa-Grug, Efan, Mari Elli, Betsi Haf a Griff xxxx

### Clwb 60 Llangynin

Ar brynhawn Iau, yr 8fed o Chwefror daeth nifer dda ynghyd i'r cyfarfod misol pan groesawyd Shon (Midway) Rees atom.

Cawsom amser cofiadwy a diddorol iawn gyda Shon yn rhannu cwrs ei fywyd gyda ni o amser ei dadcu Stanley yn sefydlu'r busnes Midway Motors hyd heddiw. Yn amlwg oedd pwysigrwydd teulu iddo, a thradododd straeon o'r amseroedd cynnar rheiny, amser ei dadcu ac yna amser ei dad Wyndham wrth y llyw. Yn anffodus bu ei dad farw yn 2008 ac yna ei fam Elan a'r tri bachgen yn olynu ac erbyn hyn mae ei chwaer hefyd yn y busnes. Felly mae'n fusnes teuluol cant y cant a phob un yn arbenigo mewn adran arbennig, a thrwy y cydweithio mae'n fusnes llwyddiannus cefen gwlad.

Cawsom wledd o adloniant a mwynhad pur a llond lle o chwerthin yn gwrando ar ei genadwri. Taerodd fod y storiau i gyd yn hollol wir. Ta beth am hynny roedd yn argyhoeddiedig iawn ac yn eli i'r galon. Diolchwyd i Shon gan Menna am brynhawn difyr dros ben a hynod o dda oedd bod yno.

Yng ngofal y te oedd Marian a Fanw a Sally enillodd y raffl. Y Cawl yn y Llew Gwyn, Pwlltrap fydd y cyfarfod nesaf ar Mawrth 14eg. Enwau i Eifiona os gwelwch yn dda.

# LOGIN

**Calfaria**

Oedfaon.

Diolch o galon i Mrs Catrin Isaac Thomas a Mr Hedd Ladd Lewis am eu gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.

Mawrth
3ydd: Lyndon Lloyd - Cymun am 10.30
17eg: Natalie Morgan - Cwrdd am 2
31ain: Hefin Wyn - Cymun y Pasg am 10.30

Ebrill
14eg: Shan Jones Cymun am 2
28ain: Annalyn Davies - Cwrdd am 10.30

**Gwellhad**

Dymunwn wellhad buan i Tudur Lewis sy'n brwydro yn erbyn cancr ar hyn o bryd.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn gyda Gwyneth Jones a James Morris a'u teuluoedd ar farwolaeth mam yng nghyfraith, mamgu a hen famgu annwyl iawn sef Jean Jones (Jean Rhos gynt). Bu farw Jean yn sydyn yng Nghartref Maes Llewellyn, Castell Newydd Emlyn lle roedd y staff a'r deiliaid yn meddwl y byd ohoni. Bu colli ei mab Milton a'i merch Iris yn ergydion creulon i Jean, ond brwydrodd ymlaen yn ddewr, gan wneud llawer o ffrindie newydd yng Nghartref Maes Llewellyn.

Cynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel Calfaria Login, lle bu'n aelod ffyddlon am ran fwyaf o'i hoes. Mae dweud enw ambell berson yn codi gwên ar unwaith, roedd Jean yn sicir yn un o'r bobol hynny. Fe gofiwn am ei ffraethineb a'i synnwyr digrifwch, yn ogystal a'i chymeriad addfwyn. Cysgwch yn dawel Jean fach, coffa hyfrytaf amdanoch.

**Yr Adroddiad Blynyddol**

Dosbarthwyd yr adroddiad blynyddol yn ystod oedfa gymun mis Chwefror. Diolch i Faith ac Eurfyl am sicrhau fod yr adroddiad yn cael ei argraffu'n brydlon fel arfer.

**Nofio Gwyllt**

Roedd yn hyfryd gweld pedair o'n haelodau sef Beti James, Sian Davies,Bethan Allen a Mari Brame - ynghyd â dwy o'u ffrindie sef Meinir Eynon a Sian


**Rosemarie Davies**
Cyfrifydd Technegol
Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon
Cyflogau
Hunan Asesiad
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

Pugh ar raglen Prynhawn Da yn ddiweddar. Mae'r chwech ohonynt yn mynd i nofio yn y mor yn gyson ac yn gwneud hynny drwy gydol y flwyddyn. Gwelir erthygl llawn am eu profiad ar y dudalen hon.

## Canolfan Ffynnonwen

Cynhaliwyd cinio blynyddol y ganolfan ar Nos Wener, 2il o Chwefror. Daeth dros hanner cant o fobl ynghyd a mwynhawyd pryd blasus dros ben yng nghaffi Beca. Croesawodd y cadeirydd bawb a diolchodd i Robert a'i staff. Mwynhawyd y noson yn cymdeithasu.

Edrychwn ymlaen at ein noson o Gawl a Chân a gynhelir eleni ar Nos Wener 15fed Mawrth am 7 o'r gloch. Tocynnau wrth y drws ond dewch a basn a llwy. Eleni rydym yn cael adloniant gan Clive Edwards felly rydym yn siwr o gael noson hwylus. Cofiwch gefnogi, manylion pellach ar y poster.

*Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen*

**Noson Cawl a Chân**

**Nos Wener 15fed Mawrth**
**am 7 o'r gloch**
**Dewch a basn a llwy**
**Cacen a te i ddilyn**
**Adloniant - Clive Edwards**
**Pris £10**
**Bwyd i blant am ddim**
**Noson yn llawn hwyl - Cofiwch gefnogi**

## Dreigiau'r Don - Gyda'n gilydd law yn llaw

Ar ddiwedd cyfnod anodd,
Yn hanes y chwech ffrind
Daeth golau ar y gorwel
Felly rhaid bydd cadw fynd.

Wedi cyfnod Cofid bu'r chwech ohonom ni yn cyfarfod yn gyson. Roedd cefnogi ein gilydd yn bwysig dros ben. Rhyw ddeunaw mis yn ôl daethom ni – Mari, Beti, Meinir (Login), Sian (Boncath), Bethan (Aberteifi) a Siân (Hendygwyn) at ein gilydd i wynebu her newydd. Daeth y syniad o fynd i'r môr gan anelu at fynd trwy gydol y flwyddyn.



Wedyn daeth antur Newydd,
I'r môr fe awn am dip.
I Coppet Hall neu Amroth
Mewn dryrobes, O! mor slic.

Mae'r profiad yn rhoi cyfle i ni fyw yn y foment ac yn rhyddhau tensiwn yn y meddwl a'r corff. Mae'r môr fel petai'n golchi ein pryderon i ffwrdd ac yn ogystal a hyn mae'n hwyl i fod gyda ffrindie a chryfhau cyfeillgarwch. Cyn hyn doedden ni heb sylweddoli bod cymaint gyda'r môr i gynnig i ni; bod nofio gyda ffrindie yn codi calon ac yn rhoi perspectif arall ar fywyd.
Mae'r môr bob amser yn ein galw ni nôl yn wythnosol, yn dymhorol. Mae'n deimlad pwerus iawn wrth i ni annog ein gilydd a sylweddoli yr hyn rydyn wedi'i gyflawni – hyd yn oed ar fore oer ofnadwy o Ionawr.!!



Mor lwcus ydym ffrindiau,
Wynebwn yr hyn a ddaw,
Y cwmni gorau yn y byd,
Gyda'n gilydd law yn llaw.
Y Dreigiau.

the LONDON HOUSE butchery
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
01994 240705 / 240055
Galwch mewn am y dewis gorau
Dilynwch ni ar Facebook

Gerald Blain
Cymdeithion Cyf
15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366

RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR
Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

# BANCYFELIN

**Gibeon**

Yn anffodus, oherwydd Storm Isha, gohiriwyd oedfa Ionawr 21ain and cafwyd oedfa fendithiol ar Ionawr 28ain yng nghwmni Mr Dafydd Evans, Trelech.

Danfonwyd arian casgliad yr Oedfa Nadolig at apêl Toilet Twinning, Tearfund. Braf oedd cael derbyn y tystysgrifau yn nodi i'r arian fedru darparu toiledau yn Nepal a Mozambique.

**Talwrn y Beirdd**




Daeth BBC Radio Cymru i recordio dwy raglen o'r gyfres boblogaidd Talwrn Y Beirdd yn festri Cana nos Fawrth, 6ed Chwefror. Da oedd gweld y festri'n llawn a chystadlu brwd rhwng y timoedd gyda'r Meuryn, Ceri Wyn Jones yn cadw trefn ar bawb! Noson hwylus iawn. Mwynhawyd paned a danteithion blasus ar ddiwedd y noson trwy garedigrwydd gwragedd Cana.

**Derbyniwyd yr adroddiad yma wrth y BBC**

Nos Fawrth Chwefror 6ed, fe fu BBC Radio Cymru yn recordio'r Talwrn yn Festri Capel Cana, Bancyfelin. Recordiwyd dwy raglen - un rhwng timau Y Glêr a Tanau Tawe (ar y radio 11.2.24), ac yna Y Derwyddon a'r Gwenoliaid (ar y radio 18.2.24) a Ceri Wyn Jones oedd y Meuryn. Bydd modd gwrando ar y rhaglenni drwy BBC Sounds.

Roedd 'na gynulleidfa dda yn y Festri, ac fe gafwyd noson hwyliog iawn. Diolch i bawb ddaeth draw y noson honno. Diolch i'r Parchedig Beti Wyn James ac aelodau Capel Cana am drefnu'r cyfan mor hwylus, ac am y croeso. *Nia Lloyd Jones*






Dau o'r timoedd fu'n cystadlu

**Gofalaeth Newydd**

Yn dilyn Nadolig prysur yn yr eglwysi, cychwynnwyd y flwyddyn newydd gyda oedfa undebol i'r Ofaleath yng Nghapel Y Priordy. Mae hyn yn flwyddyn gyfforus gan y byddwn yn sefydlu gofalaeth newydd ym mis Ebrill pan ddaw Gofalaeth Eglwysi Heol Awst ac Elim Ffynnonddrain i uno yn ein gofalaeth ni i sefydlu gofalaeth newydd Caerfyrddin a Bancyfelin dan weinidogaeth y Parchg Beti Wyn James.

**Paned a Sgwrs**

Mae Cana a Bancyfelin yn trefnu paned a sgwrs yn y Fox & Hounds unwaith y mis. Croeso i bawb ymuno â ni. Dyddiadau i'w gweld ar wefan Cymdeithas yr eglwysi.

**Her y Grawys**

Gosodwyd her i aelodau Cana a Bacyfelin ynghyd a'r Priordy yn ystod tymor y Grawys i ymwrthod â bwyta un eitem o fwyd am y 40 diwrnod a'i gyflwyno i'r banc bwyd. Cewch wybod sut bu'r ymateb!

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street,
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf
"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"
PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH
01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

JTL PLYMIWR
Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb
• Gwasanaeth plymio llawn
• Gosodwyr systemau dwr twym heb fent
• Gwasanaeth teilio llawn
• Dyfynbris am ddim
• 25 mlynedd o brofiad
07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk

**Darlithoedd**
Gwerthfawrogwyd yn fawr y gyfres o ddarlithoedd a drefnwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac a ffrydiwyd i hybiau dros y wlad i gyd. Yr hwb lleol i ni oedd festri Cana, Bancfyelin. Da oedd gweld cynifer wedi dod ynghyd i'r sesiynau. Diolch i'r Parchg Guto Llywelyn am oruchwylio'r trefniadau (gweler y llun)



Estynnir croeso cynnes i chi ymuno â ni ar gyfer

Cwrdd Sefydlu'r

**Parchg Beti-Wyn James BD, MTh**

Gofalaeth Y Priordy, Caerfyrddin, Cana a Bancyfelin

yn Weinidog i Iesu Grist

yn

Eglwysi Elim, Ffynnon-ddrain a Heol Awst

Nos Wener, 12 Ebrill 2024
am 6.00 o'r gloch
yng Nghapel Heol Awst

Ar ran Heol Awst:
Nigel George

Ar ran Elim:
Roland Jeremy

Sefydlir Gofalaeth newydd trwy'r uniad hwn
**'Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin'**

Croeso cynnes i bawb
Darperir lluniaeth wedi'r oedfa

# LLANGYNOG

**Diolch**
Dymuna Beryl Thomas, Llangynog, ddiolch o galon i gymdogion, perthnasau a ffrindiau am drefnu dathliad arbennig ar gyfer ei phenblwydd yn 90 oed ac am bob caredigrwydd a dderbyniodd. Diwrnod i'w gofio!

# LLANBOIDY

**Chwaeroliaeth**



Ar Ionawr 17eg, daeth yr aelodau ynghyd i'r festri o dan lywyddiaeth Wenfys Rees. Croesawodd y gwestai sef ein gweinidog, Guto Llywelyn a ddaeth i lenwi bwlch ar fyr rybudd. Cafwyd prynhawn hwyliog gyda chwis cyffredinol, a chyfartal oedd y ddau dîm ar ddiwedd y gystadleuaeth. Diolchodd Wenfys i Guto am brynhawn difyr. Roedd y te a'r bisgedi o dan ofal Ivy Phillips a Mary Phillips.

**Sefydliad y Merched**
Ar gyfer eu cinio Nadolig, cyfarfu'r aelodau yn Station House, Hendygwyn, gyda Denise yn y gadair. Ar ôl mynd trwy busnes, bu pawb yn mwynhau pryd o fwyd blasus a diolchodd Denise i bawb am eu cefnogaeth.

**Llongyfarchiadau**
Penblwydd hapus a llongyfarchiadau i Violet Griffiths, Bryn Siriol ar gyrraedd 90 oed ym mis Ionawr.

....hefyd i Julie Thomas, Maes y Bryn a oedd yn 60 oed ddiwedd Ionawr.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Merle Evans, Delfryn a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar Fawrth 6ed ac hefyd ar ddod yn hen-hen famgu, ganwyd bachgen bach i'w gor-wyres Chloe a Jamie.

...hefyd i Sue Jones, Cilowen a fydd yn dathlu penblwydd arbennig ar Fawrth 1af.

TŶBACHTWT
ANRHEGION • GIFTS
• CRYMYCH •
01239 831441 / 07900 692678

ORWL
TRADING AS
DORIAN PHILLIPS
Owain: 07879 495653
Owain @dorianphillipsbuilders.co.uk

GP Architecture Studio
Arbenigo mewn dyluniadau preswyl pwrpasol
Adnewyddu amryw o Gartrefi
Anheddau Pwrpasol Newydd
Addasiadau Cyfoes
Cadwraeth Traddodiadol
Facebook - @GPArchStudio
Instagram - @gp.archstudio
Email - info@gparchstudio.wales
RIBA Chartered Practice
arb

# Neuadd y Farchnad

**Sioe Ffasiynau**

Cynhaliwyd Sioe Ffasiynau yn Neuadd y Farchnad, Llanboidy i godi arian tuag at uned Cemotherapi yn ysbytai Glangwili a Llwynhelyg. Agorwyd y noson gan Iola Wyn ac yna bu Margarette Hughes yn dangos casgliad o'i dillad dros y degawdau. Codwyd £2200 i'w rannu rhwng y ddwy ysbyty.



Yn y llun gwelir Julie Thomas, Delyth Bebb, Susan Evans ac Eiry Williams (aelodau'r pwyllgor) ynghyd â Margarette Hughes a thair o staff adran Cemotherapi Glangwili. Diolch i bawb am gefnogi.

# HENDYGWYN AR DAF

**Tabernacl**

Braf oedd cael croesawu cyn-weinidog y Tabernacl, Parch Llew Picton Jones a'i wraig Marie -Lynne nôl wrth i Llew gynnal oedfa ar ddiwedd mis Ionawr. Unwaith y flwyddyn byddwn yn 'cyfnewid pwlpud' fel hyn a braf oedd cael cyfle i wneud hynny eleni eto.

Mae Clwb Hwyl y plant wedi ail-ddechrau ar ôl y Nadolig ac yn mynd o nerth i nerth gyda dros ugain o blant yn bresenol yn wythnosol.

Mae'r grŵp trafod y Beibl wedi dechrau ail-gwrdd ar ôl y Nadolig a'r tymor hwn byddwn yn edrych ar Lyfr Jona yn yr Hen Destament.

Rydym wedi dechrau rhywbeth newydd yn yr wythnosau diwethaf yma sef ymuno gyda Parch Shirley Murphy ar gyfer oedfa fisol yng Nghartref Waungron.



Oedfa yng Naghartref Waungron, Hendy-gwyn dan ofal y Parch Shirley Murphy.

Trist yw cofnodi ein bod wedi colli aelod yn ystod y mis a aeth heibio sef Mrs Pam Collis. Roedd Pam yn byw yn Guildford ond yn dod nôl i Hendy-gwyn ac i'r Tabernacl yn aml. Rydym yn cydymdeimlo yn ddiffuant gydag Ann Glanville, ei chwaer, gyda Bill ei gŵr a gyda'r teulu i gyd.

Ar nodyn hapusach llongyfarchiadau i Megan a Mathew ar enedigaeth Mali Fflur yng nghanol mis Ionawr. Pob dymuniad da wrth bawb yn y capel.



Mali Fflur gyda'i rhieni Megan a Mathew

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon
clinigol
ar gyfer anafiadau sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith
Apwyntiadau ar gael yn Crymych a San Cler

Fel arfer mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno gyda ni ar gyfer ein hoedfaon, y Clwb Hwyl, Grŵp Trafod y Beibl neu'r oedfa fisol yn Waungron. Os am fwy o fanylion cysylltwch gyda Meryl James ar 01994 240350.

Dyma beth sydd ymlaen mis Mawrth yn y Tabernacl. (Clwb hwyl bob nos Wener yn festri'r Tabernacl rhwng 3.30 a 4.30 )

Mawrth
3ydd : 11.00 Oedfa Gymun Gŵyl Ddewi dan ofal y plant a'r ieuenctid
10fed : 9.30 Oedfa
17eg : 10.30 yn y Trinity, Llanboidy : Oedfa dan ofal Parch. Llinos Gordon
24ain : 9.30: Oedfa
29ain : 10.30 : Oedfa'r Groglith yn y Trinity, Llanboidy
31ain : 11.00 : Oedfa'r Pasg


DIOLCH:
Dymuna Ann Glanville, Bill Collis a theulu'r diweddar Pamela Collis (gynt o Hendygwyn) ddiolch yn ddiffuant i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a chefnogaeth a ddangoswyd iddynt drwy air neu weithred yn eu colled trist.
Diolch arbennig i'r Parch Guto Llywelyn am ei gymorth ddiffael yn ystod y pedwar mis diwethaf; i Menna Lewis am chwarae'r organ a'i chefnogaeth hithau. Hefyd i Meryl James am y blodau hyfryd a'i chefnogaeth personol i mi drwy amser anodd iawn. Diolch i Elizabeth White am ei pharodrwydd i dderbyn rhoddion, a'i chyfeillgarwch. Diolch i fwyty'r "Roadhouse" am baratoi lluniaeth arbennig wedi'r angladd.
Dymuna Ann diolch yn ddiffuant i Ken a Lynys Davies am y trefniadau urddasol, eu cefnogaeth a'i cyfeillgarwch enfawr dros amser mor anodd a thrist o golli ei chwaer annwyl. Diolch o galon i bawb.

## Hoelion Wyth - Cangen Hendygwyn

Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror, fel arfer yn lolfa Clwb Rygbi Hendygwyn. Estynnwyd croeso cynnes i'r siaradwr gwadd, sef Dai Rees, yn wreiddiol o San Cler ond yn awr yn byw yn Sir Benfro. Dyma'r trydydd tro i Dai Rees ddod i siarad â ni, y tro cyntaf yng nghyfarfod Tachwedd 2021 pryd bu'n rhoi ei hanes ar ôl iddo ymddeol o'i yrfa ddisglair gyda'r heddlu. Yr ail dro, cawsom hanes ei yrfa gyda'r heddlu gan ganolbwyntio ar y ddwy flynedd a hanner bu'n rhan o'r tîm o pedwar ar ddeg, yn fechgyn a merched, a oedd yn ymchwilio i'r cynhyrchu a dosbarthu'r cyffur LSD yng Nghymru a thu hwnt.

Tro yma, cawsom hanes ei yrfa gyda'r heddlu pan ymunodd â'r llu fel 'cadet' yn 1959 yn Hwlffordd, i'r amser pan ymddeolodd ac erbyn hyn wedi cael dyrchafiad i ranc Uwch Arolygwr a gweithio yng Nghanolbarth Cymru. Cawsom ei hanes o'r dyddiau cynnar i amser ei ymddeoliad, yr ardaloedd bu'n plismona ynddynt ac wrth gwrs, ei amser fel ditectif. Mae'n amlwg, er ei fod wedi gweld erchyllderau yn ymwneud â'r swydd, fe wnaeth fwynhau ei yrfa a chyflwynodd yr hanes gyda llawer o hiwmor. Noson hwylus dros ben a diolchwyd iddo ar ran yr aelodau gan Wyn Evans.

## Penblwydd hapus yn 97 oed



Dymuna Haydn Lewis, Tyddyn Haul, ddiolch am bob cerdyn, anrheg, galwad ffôn ac ymwelwyr a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn 97 oed mis Rhagfyr diwethaf.

# LLANDYSILIO

**Cydymdeimlo**
Estynwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu Janet Parry Davies, Llandysilio, a fu farw ar 3ydd o Ionawr. Gwraig annwyl Dyfrig, mam a mamgu gariadus i Guto ac Ann, Huw ac Amanda, Lucy, Luke, Sam ac Elen, a chwaer annwyl i Beryl. Meddwl amdanoch i gyd.

**Penblwydd**
Penblwydd hapus i Lleucu Llwyd Lloyd ar ei phenblwydd yn 18 oed ar 15fed o Ionawr.

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir

Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
**Dai James - Steven Owens**
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

SIOP SIAN CRYMYCH
**Crefftau Cymreig**
*Gemwaith Rhiannon*
*Crisial Brenhinol Cymru*
*Crefftau Lleol*
*Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau*
*Crymych, SA41 3QF*
*FFÔN: 01239 831230*

Bwyd Byd Byd
- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

**Llongyfarchiadau**

Ar ddydd Sadwrn, 3ydd Chwefror cynhaliwyd seremoni gwobrwyo Pencampwriaeth 'Grass Track' Bancyfelin 2023. Roedd teulu Beiciau Lamos, Llandysilio yn llwyddianus iawn. Da iawn wir.



Iestyn Rees - 1af yn cwads
Mili Rees - 3ydd yn cwads Blaster
Archie Hammersley - 1af yn Dosbarth 4 cwads
Peggy-Anne Hammersley - 1af yn Dosbarth 3 cwads pro
Poppy Hammersley - 3ydd yn Dosbarth 3 cwads pro
Aurora Hammersley - 1af yn Dosbarth 2 cwads pro





Hefyd llongyfarchiadau i Hannah Hammersley, Beanie Rees a Mili Rees o Landysilio am gwblhau y Narberth Nobler, ar noson y 3ydd o Chwefror allan yng nghanol y MWD - lot o fwd ond llawer o hwyl. Da iawn wir ferched.

**CYLCH MEITHRIN a CHYLCH TI a FI LLANDYSILIO**

Lleoliad: Neuadd Llandysilio, Llandysilio, Clunderwen. SA66 7SY
Ar agor: Dydd Llun, Mawrth, Mercher, Iau a Gwener

9.00yb - 12.00
Clwb brecwast: 8.15 - 9.00
I blant o 18 mis oed
Arweinydd: Liz Lewis
Ffôn: 07760 135392

Ti a Fi - dydd Mercher 12.00 - 1.30
***Byddwn yn medru cymryd plant o 18 mis oed ar ôl y Nadolig***
Rhif elusen Cofrestredig 1089716

**Cylch Meithrin Ffynnonwen a Llandysilio**


Cynhelir
**Noson Bingo**
Nos Wener, Mawrth 8fed
am 7 o'r gloch
yn Neuadd Clunderwen
**£6 y Llyfr**
*Croeso cynnes i bawb*
mudiad meithrin

# HENLLANFALLTEG

Cydymdeimlwn gyda Ceri a Claire Rees a'r teulu, Glanyrafon ar farwolaeth mam Ceri yn ddiweddar.

**Diolch**

Hoffai Mrs Aerona Edwards, Yr Hafod, Maenclochog ddiolch i bawb am y cardiau, blodau a'r rhoddion hael a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 90 oed. Mae'n gwerthfawrogi'n fawr yr haelioni a'r caredigrwydd a ddangoswyd iddi ar ddathliad ei phenblwydd arbennig.

FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU,
YSTAFELLOEDD GWYDR
A GWTERI
PVCU
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 07774 812587

Caffi Beca
Oriau Agor 9.00yb–2.30yp
dydd Mawrth i ddydd Sadwrn
Efailwen
01994 419735

WYN'S TYRES
BRECIAU ac EGSOSTS
Galwch i mewn am brisau cystadleuol a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
Ffôn: **(01994) 231599**

# EFAILWEN

## Hoelion Wyth - Cangen Beca

Cynhaliwyd ein cyfarfod misol ar nos Fercher, Ionawr 31ain, yng Nghaffi Beca fel arfer. Croesawyd pawb ynghyd gan Eifion Evans, y cadeirydd cyn iddo gyflwyno gŵr gwadd y noson sef Mike Davies, cyn bennaeth Ysgol y Preseli, Crymych ac Ysgol Caer Elen, Hwlffordd.

Testun araith Mike oedd "Atgofion gyrfa ym myd addysg a phel droed". Soniodd ar y dechrau taw'r athro wnaeth ddylanwadu fwyaf arno yn Ysgol Ramadeg Llandysul oedd yr athro daearyddiaeth. Dyma chi athro oedd bell o flaen ei amser fu'n defnyddio cyfrwng sleidiau, ffilmiau, cynnal gwaith maes lleol, yn ogystal â threfnu teithiau tramor, tra bod athrawon arall yn defnyddio bwrdd du yn unig fel adnodd. O ganlyniad i ddylanwad yr athro, penderfynodd Mike astudio daearyddiaeth yn y Brifysgol. Tra yn y Brifysgol, bu'n chwarae i'r tîm pel droed a gafodd lwyddiant ysgubol yn ystod ei gyfnod yno – daethant yn Bencampwyr Prifysgolion Prydain yn 1980 a gwnaeth Mike hefyd gynrychioli tîm pel droed Prifysgolion Cymru a chwarae yn erbyn timau Lloegr, Yr Alban ac Iwerddon. Aeth hefyd ar daith bythgofiadwy i Bucharest gyda Prifysgol Aberystwyth - profiad anhygoel i griw o fyfyrwyr gan fod 15,000 o bobol yn gwylio hwy yn chwarae! Gwnaeth gyfaddef bod pel droed wedi cael blaenoriaeth ar ei astudiaethau ar rai adegau!

Wedi graddio, cafodd Mike ei benodi yn athro daearyddiaeth yn Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug. Un arall fu'n ddylanwad mawr arno oedd pennaeth yr ysgol honno, sef y diweddar Aled Lloyd Davies. Dyn y pethe, gŵr bonheddig, anogwr heb ei ail, fu'n treulio amser gyda'r athrawon ifanc yn eu harwain, eu cynghori a'u hysbrydoli.

Cafodd Mike ei benodi yn athro daearyddiaeth yn Ysgol y Preseli yn 1986 a gwnaeth ffawd alluogi Mike i barhau i chwarae pel droed i Aberystwyth, wrth iddynt symud o chwarae yng Nghyngrair y Canolbarthi i Gynghrair y De ar yr union adeg. Y trydydd person a ddylanwadodd yn fawr arno oedd Martin Lloyd, fu'n bennaeth Ysgol y Preseli o 1991 – 2008. Martin fu'n gyfrifol am annog Mike i ddilyn cyrsiau pwysig, rhoi cyfle iddo arwain ac yn bennaf am roi'r hunan gred iddo ei fod yn gallu gwneud y swydd. Yn ystod ei gyfnod yn Ysgol y Preseli, daeth yn bennaeth adran, dirprwy bennaeth ac yn dilyn ymddeoliad Martin, yn bennaeth ar yr ysgol.

Rhannodd nifer o straeon difyr gyda ni am deithiau pel droed i wylio tîm Cymru, teithiau pel droed Mondial Pupilles yn Llydaw, teithiau undydd a teithiau daearyddiaeth i Wersyll Glan-Llyn – dwedodd bod gweithgareddau allgyrsiol yn rhan allweddol o fywyd Ysgol a bod y disgyblion yn cofio mwy am y teithiau hynny, na'r gwersi!

Bu Mike hefyd yn bennaeth gweithredol ar Ysgol Caer Elen, Hwlffordd pan agorodd yr Ysgol yn 2018 a gwnaeth yntau osod seiliau cadarn iddi o'r cychwyn.

Diolchodd Eifion i Mike am noson arbennig iawn a chafwyd cyfle ar y diwedd i holi nifer o gwestiynau iddo. Roedd yn hyfryd croesawu dau aelod newydd sef Brian Edwards ac Andrew James i'n plith. Bu pawb yn mwynhau basned o gawl bendigedig ar ddiwedd y noson, diolch i Robert am ei groeso arferol.



Eifion Evans, Ken Thomas ac Eurfyl Lewis, yng nghwmni'r siaradwr gwadd sef Mike Davies.

# PENYBONT

## C Ff I Penybont

Siarad Cyhoeddus Cymraeg



Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yng nghystadlaethau Siarad Cyhoeddus CFfI Sir Gâr, fis Ionawr - Dyma'r canlyniadau:

Adran Ddarllen:
2il - Tîm Swyddfa - Tomos Morgans

Adran Iau:
1af Tîm Penybont - Celyn Richards, Gwenan Morris ac Olwen Roberts
Unigolyn Gorau - Celyn Richards

Bydd Celyn yn mynd ymlaen i gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymru, ac Olwen wrth gefn.

Adran Hŷn:
1af Tîm Pen-y-bont - Daniel O'Callaghan, Elen Jones a Fiona Phillips
Unigolyn Gorau - Daniel O'Callaghan

Daniel, Elen a Fiona yn mynd ymlaen i Gymru.

## *Penblwydd hapus yn 80 oed*



Llongyfarchiadau i Amy Jones ar ddathlu ei phen-blwydd arbennig yn 80 oed ar y 10fed o Chwefror. Cafodd dê prynhawn hyfryd i ddathlu yng Nghaffi Paned, Caerfyrddin.

**EGLWYSI BWLCHNEWYDD, CAPEL CENDY, CAPEL Y GRAIG, FFYNNONBEDR A PHEN Y BONT**

♪♪♪♪♪♪♪♪
**CYNGERDD**
♪♪♪♪♪♪♪♪

**CARWYN ELLIS**

(Colorama)
♪♪♪♪♪♪
ynghyd ag artistiad eraill

**Nos Sadwrn, Ebrill 20ain, 2024, am 7.30**

yng Nghapel y Graig, Trelech

Tocynnau ar gael oddi wrth Mrs Alyson Harries, 01994 484334

Yr elw tuag at Cymorth Cristnogol

# TRELECH

Cydymdeimlwn yn fawr gyda theulu y diweddar Bessie Bowen, Rhydyciw sef Aled a Helen, Treto a Diana ac Arwel, Tanybryn a'u teuluoedd, a fu farw yn ddiweddar. Bu'n treulio'r misoedd diwethaf yng Nghartref Glyn Nest yng Nghastell Newydd Emlyn.

**Capel y Graig**
Cynhaliwyd oedfa gymun gyda thyrfa niferus yng Nghapel y Graig ar Ionawr 28ain gyda Karen Owen yn gwasanaethu a Rosemary Evans yn cyfeilio.

Trist yw cofnodi marwolaeth aelod a fu'n ffyddlon iawn i'r achos yng Nghapel y Graig, sef Mrs Bessie Bowen, gynt o Rhydyciw, Trelech. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Diana ac Arwel Bowen, Aled a Helen Bowen a'u teuluoedd. Cynhaliwyd angladd hollol breifat yng Nghapel y Graig gyda'r Parchg Sian Elin, Karen Owen a Jean Lewis yn cymryd rhan.

# RHYDYCEISIAID

**Pulpud**
Diolch o galon i'r Parch. Guto Llywelyn am ei wasanaeth yn oedfa gymun ar Sul, Chwefror 4ydd. Pleser mawr oedd cael cwmni Eifiona Lewis a Dewi Griffiths.

# CLUNDERWEN

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â theulu Haulwen Ann Thomas, Maeshyfryd, Clunderwen. Priod hoff John, mam dyner Helen a Mike. Hunodd yn dawel ar ddydd Gwener, 12fed o Ionawr yn 85 oed. Meddwl amdanoch.

....hefyd estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf a theulu Michael Geoffrey Goodridge a fu farw'n sydyn ar ddydd Gwener, 19eg o Ionawr yn 84 oed. Gŵr cariadus Eirlys o Johnstown, tad annwyl Michellle ac Aled, dadcu cariadus Morgan a Menna o Glunderwen, brawd-yng-nghyfraith ffyddlon Olive o Llandysilio a John a Kathryn, hen ewythr annwyl i Sian a Gareth. Meddwl amdanoch.

**Llongyfarchiadau**
Dydd Sadwrn, 3ydd Chwefrol cynhaliwyd Pencampwriaeth Tir glas Bancyfelin 2023. Bu Fflur a Lleucu, merched Catherine Griffiths a Jason Morris o Glunderwen yn llwyddiannus. Y ddwy yn rasio cwads yn dosbarth 3. Fflur wedi dod yn 2il a Lleucu yn 3ydd. Da iawn ferched.

**H THOMAS a'i FAB**
**Peiriannydd Amaethyddol**

Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

**D. E. PHILLIPS**
**a'i Feibion**
TANYBRYN, GLANDWR
*Trydanwyr*
*Siop Radio a Theledu*
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

**Y GARREG LWYD**
Heol Salem, Sancler
***Cartref Oddi Cartref***

Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855



Fflur a Lleucu

**Graddio**



Llongyfarchiadau i Bronwen Prickett, merch Angela a Rob Prickett. Graddiodd Bronwen ar 26ain o Ionawr o Brifysgol De Cymru gyda PGCE ysgolion Cynradd trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd Bronwen eisioes wedi derbyn Gradd BA 2:1 gydag anrhydedd mewn cerddoriaeth o Brifysgol Caerfaddon. Cynhaliwyd y seremoni yng Nghynhadledd Ryngwladol yn y Celtic Manor, Casnewydd. Mae Bronwen ar hyn o bryd yn gweithio fel athrawes blwyddyn 5 ac athrawes ymyrraeth ADY yn Ysgol Panteg ym Mhontypŵl.

# Sefydliad Y Merched Clunderwen a Llandysilio

**Dathlu can-mlwyddiant**

Prynhawn dydd Sadwrn, 10fed o Chwefror roedd Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio yn dathlu 100 mlwyddiant y mudiad. Canhaliwyd Te Parti gydag arddangosfa o luniau a gwaith crefft yr aelodau dros y blynyddoedd.

Dechreuodd y prynhawn gyda'r Parch. Sharon Edge yn rhoi hanes y sefydliad cenedlaethol, ac yna fe roddodd Barbara Pegg hanes y grŵp.
Hefyd cafwyd eitemau gan rai o blant Ysgol Brynconin a grŵp iwcalili.

**Hanes y grŵp**

Cynhaliwyd y cyfafarfod misol cyntaf ar Chwefror 6ed 1924, gyda Mrs Davies, y Mans yn Cadeirio. Roedd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Ysgol Brynconin i ddechrau, yn fisol ac yna pob pythefnos. Nid oedd golau'r ysgol yn dda, felly datriswyd y broblem drwy brynu dwy lamp olew llosgwr dwbwl i'w hongian. Y gost oedd 47 ½ ceiniog.

Yn y dyddiau hynny roedd yna dân agored hen ffasiwn, gyda hob bob ochor. Roedd y dŵr yn cael ei ferwi mewn tegell haearn mawr, ac roedd y te yn cael ei wneud mewn tepot mawr enamel gwyn, ac yna cael ei arllwys o jwgiau mawr enamel.

Erbyn diwedd 1926 aeth y rhifau lawr. Roedd 60 o aelodau ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf, a llawer ohonynt yn cerdded lan o Glunderwen. Ar ôl cerdded lan i Brynconin ar 4ydd o Ionawr, noson oer a thamp, gwelwyd bod ddim llawer o Landysilio yno, felly cynigiodd Mrs Sibbie Edwards ddechrau dau grŵp, ond ar ôl ail feddwl cytunwyd i gadw fynd fel un grŵp ond symud i Glunderwen.

Roedd y cyfarfod cyntaf yn Clunderwen ar 5ed o Chwefror 1930, gyda 41 o aelodau yno i wrando ar Dr Llewellyn o Hendy-Gwyn yn siarad. Roedd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ysgol y Babanod. Roeddent yno hyd agorwyd Neuadd Gymunedol newydd. Yn 1937 ffurfiwyd côr a pharti cyngerdd.

Yn 1948 trefnwyd carnifal blynyddol er mwyn codi arian at adeilad y Neuadd, ac yna thrwy gofynion a ymdrechion y merched fe adeiladwyd estyniad a chegin yn 1959. Roedd y cyfarfod cyntaf yn yr estyniad ym Medi 1959.

Yn 1974, dathlwyd Jiwbili Aur y gangen yn Nantyffin, achlysur addas i gofnodi carreg filltir bwysig yn hanes y grŵp, a oedd yn un o'r deunaw cangen cyntaf i'w sefydlu yn Sir Benfro.

Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i helpu dathlu. Os hoffech ymuno, rydym yn cwrdd ar nos Lun cyntaf o bob mis yn Neuadd Clunderwen am 7.30.



Te Prynhawn y dathlu

Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL BRYNCONIN

**Croeso**

Ar ddechrau tymor newydd estynnwn groeso cynnes i'r disgyblion newydd gan obeithio y byddan nhw yn mwyhau eu hamser gyda ni yn Ysgol Brynconin. Croeso i Edie, Emilia a Lizzie sydd wedi dechrau gyda ni'n llawn amser a chroeso hefyd i Angus, Caio, Fredrick, Glesni a Rowan sydd wedi dechrau gyda ni fel disgyblion rhan amser.

**Cwis Dim Clem**

Da iawn i blant Dosbarth Rhuddem am gymryd rhan yng nghwis blynyddol Mentrau Iaith. Diolch i Dafydd Vaughan o Fenter Iaith Sir Benfro am drefnu'r weithgaredd a llongyfarchiadau i Amelia, Cynan, Deri a Luca am ddod yn fuddugol. Byddan nhw nawr yn cymryd rhan yn rownd derfynol Sir Benfro. Pob lwc!

**Bingo Dydd Santes Dwynwen – Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau Ysgol Brynconin**

Diolch i bawb am bob cymorth i lwyddiant Bingo Santes Dwynwen ar Nos Iau, 25ain o Ionawr. Codwyd swm gwych o £500 tuag at yr Ysgol a diolch arbennig i Swyddogion Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau Ysgol Brynconin am eu holl waith caled i drefnu'r noson arbennig.

**Eisteddfod Offerynnol yr Urdd**



Da iawn i Caryl a Poppy am gystadlu yn yr unawd biano a thelyn yn Eisteddfod Sir Offerynnol yr Urdd ar Ddydd Mercher, 7fed o Chwefror.

**Ffair Fwyd**



Teithiodd Dosbarth Emrallt i Faes Sioe Sir Benfro, Hwlffordd ar brynhawn Mercher, 7fed o Chwefror er mwyn cymryd rhan mewn ffair fwyd arbennig a drefnwyd gan Swyddogion Sioe Hwlffordd. Cafwyd hwyl yn dysgu am gynhwysion pancos ac roedd roedd y plant wedi mwynhau blasu y pancos hefyd!

**Twrnament Pêl droed yr Urdd**



Da iawn i dimoedd pêl droed Ysgol Brynconin am gystadlu yn nhwrnament pêl droed yr Urdd ar ddydd Mercher, 7fed o Chwefror ar gaeau pêl droed Ysgol

PHILLIP A MORRIS
ADEILADWYR
Central, Clunderwen
Symudol:
07775 697803
07920 060956

GSJ
G.S.JENKINS
EFAILWEN, CLUNDERWEN
07554 664 316
Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar


Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

Uwchradd Greenhill, Dinbych y Pysgod. Diolch enfawr i Mr Dafydd Makepeace (rhiant yr Ysgol) am roi ei amser i hyfforddi'r timoedd. Rydym yn gwerthfawrogi ei amser a'i help yn fawr iawn.

**Diwrnod Miwsig Cymru**

Roedd hi'n Ddiwrnod Miwsig Cymru ar Ddydd Gwener, Chwefror y 9fed a braf oedd gweld disgyblion Ysgol Brynconin wedi gwisgo i fyny fel eu hoff ganwr o Gymru. Gwelwyd pobl fel y Welsh Whisperer, Cerys Mathews, Yws Gwynedd, Dafydd Iwan, Max Boyce a Bronwen i enwi ond rhai. Cafwyd hwyl hefyd yn gwrando a dysgu'n fwy am gerddoriaeth o Gymru.

**Dathliad penblwydd 100 oed Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio**

Cafodd yr ysgol wahoddiad i gymryd rhan mewn dathliad arbennig Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio ar brynhawn Sadwrn, 10fed o Chwefror yn neuadd Clunderwen. Braf oedd cael bod yn rhan o'r dathliadau arbennig gan gofio taw yn Ysgol Brynconin roedd Sefydliad y Merched wedi cwrdd am y tro cyntaf 100 mlynedd yn ôl.

## YSGOL GRIFFITH JONES

**Siarter Iaith**

Llongyfarchiadau i dîm dosbarth Pwyll ar ennill rownd gyntaf 'Cwis Dim Clem' Menter Sir Gâr. Da iawn Caio, Nia, Mael ac Amelie. Pob lwc iddynt yn Rownd 2.

Bu'r Ysgol gyfan yn treulio diwrnod cariadus wrth ddathlu Dydd Santes Dwynwen drwy greu cardiau a chalonnau 3D.

Bu dosbarth Branwen yn llunio stribedi cartwn o'r chwedl tra bu dosbarthiadau Pwyll a Rhiannon yn gwrando ar ganeuon ar thema cariad a rannwyd gan Menter Sir Gâr.

Braf oedd clywed bod Maya o Ddosbarth Olwen wedi ennill cystadleuaeth cynllunio carden Santes Dwynwen i ysgolion Sir Gâr a drefnwyd gan y Fenter. Derbyniodd dystysgrif a bag llawn danteithion.

Dathlwyd Dydd Miwsig Cymru drwy werthuso gwahanol genres o gerddoriaeth Gymraeg. Bu dosbarthiadau Gwenllian a Branwen yn dewis eu pump uchaf o hoff ganeuon Cymru.




Maya, enillydd cystadleuaeth cynllunio carden Santes Dwynwen i ysgolion Sir Gâr.

**Eisteddfod yr Urdd**

Mae hwyl y cystadlu wedi dechrau eleni eto! Llongyfarchiadau mawr i Ella Cooper am ennill y wobr gyntaf am yr Unawd Llinynnol yn Eisteddfod Offerynnol y Rhanbarth, gyda Chloe Price yn dod yn drydydd. Da iawn hefyd i Nia Jenkins am ddod yn ail yn yr Unawd Gitar.

**Ymwelwyr**

Daeth Llinos Mair atom i gynnal gweithdy Ail Gylchu gyda dosbarthiadau Hywel, Gwenllian ac Arthur. Cafodd y plant ddiwrnod wrth eu bodd yn gwrando ac ymateb i'r stori 'Llanast Llwyr' ac yn dysgu sut i fynd ati i ail-gylchu ac ail-ddefnyddio.
Daeth Cwmni Theatr Mewn Cymeriad atom i berfformio sioe 'Harri Tudur' ar gyfer dosbarthiadau Cam Cynnydd 3. Cafwyd perfformiad gwych gyda chyfle hefyd i'r plant i deithio nôl mewn amser a chymeryd rhan ym Mrwydr Bosworth!
Croesawyd 'Siri' y ci therapi yn ôl atom unwaith eto. Bu rhai o'n disgyblion yn treulio sesiynau gwerthfawr yn ei gwmni yn rhannu eu teimladau.

**Diwrnod Diogelwch ar lein**

Nodwyd Diwrnod Diogelwch ar lein ar ddydd Mawrth, Chwefror y 6ed. Thema'r diwrnod eleni oedd 'Ysbrydoli newid', gwneud gwahaniaeth, rheoli dylanwad a llywio newid ar-lein'. Roedd yn gyfle gwych i fyfyrio gyda







dysgwyr ar y ffyrdd y mae technoleg wedi newid ein bywydau a sut gallwn ni helpu i wneud y byd ar-lein yn le gwell.

**Ymweliadau**



Bu dosbarth Pwyll yn brysur yn plannu coed gyda Chyngor Tref San Clêr. Mae'n rhan o gynllun y Cyngor i ddatblygu darn o wlypdir y dref yn le deniadol a naturiol i ymlacio.

Aeth dosbarth Branwen ar daith i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth. Cawsant gyfle i weld o gwmpas y llyfrgell ac i fwynhau yr oriel o gelf gyfoes sy'n cael ei arddangos yno ar hyn o bryd. Ar ôl hynny fe gawsant gymryd rhan mewn gweithdy celf arbennig gyda'r artist Lisa Eurgain Taylor.

**Ymddeoliad**



Daeth diwedd cyfnod wrth i'n gofalwr Mr Henri Owen ymddeol ar ôl ugain o flynyddoedd yn yr ysgol. Diolch o galon iddo am ei holl waith dros y blynyddoedd. Byddwn yn gweld eisiau ei gwmni hoffus. Pob dymuniad da iddo am ymddeoliad hir ac hapus.

# YSGOL HAFODWNEOG

**Eisteddfod Ysgol**

Ar ddydd Iau, Chwefror 8fed cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol Hafodwenog. Roedd pawb wedi cael y cyfle i ganu a llefaru yn unigol. Wnaethon ni ddangos ein grŵp stepio a dawns Jac y do hefyd. Miss Sioned Llewelyn a Mrs Miriam Thomas oedd a'r gwaith caled o feirniadu eleni. Diolch yn fawr iddynt am ddod ato ni a gwneud gwaith anhygoel yn dewis pwy ddaeth i'r brig, roedd hi'n dipyn o waith crafu pen yn ambell i cystadleuaeth. Eleni fi (Iwan) a Cadi wnaeth ennill tlws am y fwyaf o pwyntiau llwyfan. Eres wnaeth ennill y gadair eleni trwy ysgrifennu cerdd ar thema yr Ogof. Roedd hi'n ddiwrnod lwcus iawn i Cadi eleni wrthi iddi ennill tarian am ei gwaith Celf, tarian am y stori orau ac am perfformwraig orau. Am ffordd da i orffen ei eisteddfod olaf yn Ysgol Hafodwenog. Teifi ddaeth i'r brig eleni gyda chwech deg o bwyntiau ond roedd hi'n agos iawn gyda Tywi mond un pwynt yn llai. Diolch yn fawr Mrs Eirlys Phillips, Cilifan am rhoi ei hamser i helpu ni i ddysgu y darnau canu ac i Mrs Rhian Wyn Williams am gyfeilio ar ddiwrnod yr eisteddfod. Diolch hefyd i Eirlys Phillips, Bryn Meillion am gyfeilio i'r dawnswyr. *Gan Iwan*

**Clocs**



Rydyn ni wedi bod yn lwcus iawn yn yr ysgol i dderbyn un deg wyth pâr o glocs i'r ysgol ar gyfer i'w ddefnyddio. Ni gyd yn gyffrous iawn i ddefnyddio nhw i gystadlu yn yr eisteddfod eleni sydd yn dod lan cyn bo hir. Diolch anferthol i'r gymdeithas rhieni ac athrawon am talu am y clocs newydd i'r ysgol.



Rydyn ni'n gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn. Mae hanes creu'r clocs hyd yn oed wedi cael ei argraffu yn Papur Yorkshire post.

*gan Eres*

**Ymweliad Canon Ann**

Daeth Canon Ann i'r ysgol i rannu stori am ŵyl y canhwyllau gyda ni yn ddiweddar. Roedd ganddi 'christingle' i ddangos i bawb ac fe wnaeth hi siarad am draddodiadau blynyddol yr ŵyl. Roedd gan bedwar ohonom ni swydd bwysig yn helpu actio'r stori'r ysgol. *gan Rosie*

**Bingo**

Ar nos Wener. Chwefror yr 2il es i Bingo Cymdeithas rhieni ac athrawon Ysgol Hafodwenog. Roedd Tafarn Beca yn llawn dop gyda phawb yn barod i ennill gwobrau di-ri. Diolch i gwmni G E Evans, Penlan, Chwilor

Cynwyl Elfed am noddi'r gwobrau ar y noson ac i Tafarn Beca am adel i ni ddod atynt. Codwyd swm mawr o £790 i'r ysgol. Diolch yn fawr i bawb am gefnogi.

*gan Elin-Fflur*

**Ymweliad Elinor o'r Frigâd tan**

Daeth Elinor i weld ni yn yr ysgol mis yma. Roedd ganddi stori a neges bwysig i rannu gyda ni am ddiogelwch tân yn ein cartref ni. Fe wnaeth hi ddangos i ni beth i wneud pan fod tân a phwy fyddai'n gallu helpu ni. Diolch iddi am ddod i weld ni a rhannu neges bwysig.

*gan Seamus*

# YSGOL BRO BRYNACH

Bu cyffro ar y 18fed o Ionawr pan ddaeth blanced ysgafn o eira. Caewyd yr ysgol am ddiwrnod ac yna agorwyd eto ar y 19eg. Gwnaeth disgyblion y Dysgu Sylfaen fwynhau allan yn yr eira ac yna cael siocled poeth i gynhesu.

Dathlwyd diwrnod Santes Dwynwen ar y 25ain o Ionawr. Gwisgodd y disgyblion mewn lliwiau coch a phinc. Gwnaeth y cyngor Ysgolion Iach drefnu bod y siop ffrwythau yn gwerthu llysiau a ffrwythau pinc a choch. Roedd hwn yn gyfle i'r disgyblion flasu bwydydd newydd. Gwnaeth y Cyngor Siarter Iaith drefnu bod disgyblion yn cael tatŵ calon hefyd.



Croesawyd Gwyneth Morris o Menter Iaith Sir Gâr i'r ysgol ar y 31ain o Ionawr i gynnal Cwis Dim Clem. Daeth disgyblion draw o Ysgol Beca i'r gystadleuaeth. Llongyfarchiadau i dîm Bro Brynach sydd wedi llwyddo i fynd trwyddo i'r rownd nesaf.

Gwnaeth disgyblion dosbarth Cynin fwynhau y profiad o daith preswyl i Wersyll yr Urdd, Caerdydd. Cafwyd amser hwylus yn teithio o gwmpas y Bae a'r Brif Ddinas. Buont yn y Senedd, San Ffagan, Stadiwm pêl droed Caerdydd, Amgueddfa Caerdydd a'r Bathdy Brenhinol. Dysgodd y disgyblion llawer o bethau newydd am Gymru ar y daith.



Y plant yng nghwmni dau aelod o'r Senedd



Ar ddydd Gwener y 9fed o Chwefror dathlwyd Dydd Miwsig Cymru. Trefnodd y Siarter Iaith bod disgo tawel yn cael ei chynnal yn ystod y dydd. Diolch i Menter Iaith Sir Gâr am fenthyg y clustffonau.

Ar y 1af o Fawrth bydd y disgyblion yn cymryd rhan mewn gwasanaeth Gwyl Ddewi yn Eglwys Sant Brynach am 11 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.



Jones Login
Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

**Login
Hendygwyn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk**




| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Ebrill 2024** | | |
| Llun 15 | **Cernyw ac Ynysoedd Scilly** | 5* |
| **Mai 2024** | | |
| Iau 2 | **Ynysoedd Shetland, Royal Deeside a Pitlochry** | 9* |
| Sad 4 | *Sioe Gerdd Pretty Woman, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Sad 11 | **Amgueddfa Sain Ffagan** | 1 |
| Sul 12 | *Strictly Come Dancing - Y Dawnswyr Proffesiynol* | 1 |
| Llun 13 | **Blodau Sir Norfolk** | 5* |
| **Mehefin 2024** | | |
| Llun 10 | **Gwesty Warner - Holme Lacy** | 5* |
| Mer 19 | **Diwrnod y Merched, Royal Ascot** | 3 |
| **Gorffennaf 2024** | | |
| Sad 6 | Bannau Brycheiniog, Canolfan Arddio Three Cocks A Thaith ar Cwch Dragonfly Aberhonddu | 1 |
| Iau 25 | **Castell Highclere (Downton Abbey) a Cheltenham** | 2 |
| Sad 27 | *Sioe Gerdd - Wizard of Oz, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Maw 30 | **Llandudno** | 5* |
| **Awst 2024** | | |
| Llun 5, Mer 7 a Gwe 9 | Eisteddfod Genedlaethol | 1 |
| Mer 28 | **Gerddi Highgrove a'r Cotswolds** | 2 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Medi 2024** | | |
| Llun 2 | **'All Features Great & Smal** | 5* |
| Sad 7 | *Grease, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 9 | **'Picture Perfect Suffolk'** | 5* |
| Sad 14 | Canolfan Treftadaeth Gwyr | 1 |
| Llun 16 | **'Sussex Bygone Years' a'r 'Repair Shop'** | 5* |
| Llun 23 | **Deintyddion Northumbria** | 5* |
| **Hydref 2024** | | |
| Sad 5 | **ABBA Voyage a Windsor** | 2 |
| Llun 7 | **Gwesty Warner - Sinah Warren** | 5* |
| Llun 21 | **Southport, Ardal y Llynnoed a Lerpwl** | 5* |
| Iau 31 | *Jane McDonald, Arena Utilita, Caerdydd* | 1 |
| **Tachwedd 2024** | | |
| Sad 9 | *Sioe Gerrd Wicked, CMC* a Bae Caerdydd | 2 |
| Gwe 22 | **Marchnad Nadolig Manceinion** | 3 |
| Sad 30 | **Gwyl Olau Longeat a Briste** | 2 |
| **Rhagfyr 2024** | | |
| Sad 7 | Canolfan Arddio Y'r Hen Rheiffordd (Siopa Nadolig) | 1 |
| Sad 14 | *Sioe Gerdd Hamilton, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 23 | **Gwyliau Nadolig - Gwesty Warner Holme Lacy** | 5* |

**Llyfryn 2024 ar gael yn y Gymraeg ar-lein ac mewn print!!**

**Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!**





**G. & J.M. Phillips**
CONTRACTWYR TRYDANOL
Caerdaf, Spring Gardens,
Hendygwyn ar Daf
SA34 0HE
**Ffôn: 01994 241015
Symudol: 07771 601412**
NICEIC Contractwr Cydnabyddedyg

**DERI PAGE
CIGYDD**





Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

**GT TYRES**



**Arbenigwr mewn
Teiars Ceir,
Masnachol
ac Amaethyddol**
**Brooklyn Garage
Heol y Castell
Aberteifi. SA43 3AE**
☎: 01239 612814 / 07765 034705

Menter Gorllewin Sir Gâr

**Siaradwyr Newydd:**
Dewch i ymuno gyda'n sesiynau siarad ni! Mae croeso i siaradwyr newydd a rhugl ymhob un.
Mae Coffi a Chlonc yn gyfle i ddod ynghyd i sgwrsio a chymdeithasu dros baned bob bore dydd Iau am 10.30yb ar Zoom. Mae'r weithgaredd hon yn addas ar gyfer dysgwyr neu siaradwyr rhugl. I dderbyn y linc cysylltwch gydag ymholiad@mgsg.cymru
Mae'r Fenter yn cyd-drefnu sesiynau Paned a Sgwrs yng Nghaffi'r Atom, bob dydd Mawrth o 10-11yb. Cyfle i sgwrsio a chymdeithasu dros baned.
Cynhelir sesiynau Paned a Phapur yn yr Amgueddfa Wlân, Drefach Felindre ar ddydd Mercher bob pythefnos. Ac mae sesiynau Shwmae a Siarad yn cael eu cynnal unwaith y mis ar fore Gwener yng Nghaffi Cwtch Coffi, yr hen glwb pêl-droed, Castell Newydd Emlyn rhwng 10:30-11:30. Edrych ymlaen i'ch gweld yno.
Am unrhyw wybodaeth am ein sesiynau, cysylltwch gydag ymholiad@mgsg.cymru

**Clybiau Drama:**
Mae'r Fenter, Theatr Genedlaethol Cymru a'r Egin yn cynnig dau glwb drama i blant yr ardal, Clwb Joio Drama ar gyfer blynyddoedd 1-3 ar nos Fercher o 5-5.45pm ac i flynyddoedd 4-6 o 6-7pm. Mae'r clybiau yn cael eu cynnal yn Yr Egin, Caerfyrddin. Cyfle i blant ddysgu sgiliau, magu hyder a mwynhau. I gofrestru, cysylltwch gyda betsan@mgsg.cymru Diolch i Theatrau Sir Gâr am y croeso cynnes i'r theatr yn wythnosol.

**Gwirfoddoli:**
Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae criw o bobl ifanc yr ardal wedi bod yn gwirfoddoli yn nigwyddiadau'r Fenter, megis clybiau drama, Gŵyl Canol Dre, Gŵyl Fach Newy', Ras Fach y Wiber a sesiynau amrywiol eraill ac mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn ddiolchgar iawn am eu gwaith a'u hamser.


Mae'r profiad o wirfoddoli'n lleol yn fwy na rhoi rhywbeth nôl i'r gymuned, mae hefyd yn gyfle i fagu hyder, datblygu sgiliau trosglwyddiadau cyffredinol yn ogystal â sgiliau byd gwaith. Mae cyfleoedd gwirfoddoli'r Fenter yn seiliedig ar gyfranogiad sy'n dangos arfer gorau a chynnig cyfle i gymryd cyfrifoldeb ac i wneud penderfyniadau. Mae'r Fenter yn bendant yn gwerthfawrogi gwaith ein gwirfoddolwyr ac yn gweld eu gwerth yn wythnosol. Os oes diddordeb gyda chi mewn gwirfoddoli gyda'r Fenter, cysylltwch gyda ni ar 01239 712934 / ymholiad@mgsg.cymru

Gig Bwncath, Dros Dro a Gelert:
Nos Wener 2il Chwefror 2024 cynhaliwyd gig yn Undeb Myfyrwyr PCYDDS, Caerfyrddin. Roedd y gig yn gyfle i ni ddathlu Dydd Miwsig Cymru mewn steil! Cafwyd perfformiadau gan Gelert, band ifanc o Sir Benfro; Dros Dro, band ifanc gyda'r aelodau'n ddisgyblion neu'n gyn-ddisgyblion o Fro Myrddin a Maes y Gwendraeth ac wrth gwrs, y band enwog a phoblogaidd, Bwncath.
Bu'n noson llwyddiannus iawn gyda pherfformiadau gwych a chefnogaeth cefnogwyr ffyddlon oedd wrth eu boddau gyda'r gig. Roedd bws o gefnogwyr, a drefnwyd gan UMCA, hyd yn oed wedi teithio lawr o Aberystwyth i fwynhau'r gig. Edrychwn ymlaen at drefnu mwy o weithgareddau cyffrous eraill.

Holiadur Profi i bobl ifanc:
Mae ein prosiect Profi'n mynd o nerth i nerth. Prosiect sy'n helpu pobl ifanc gyda sgiliau byd gwaith ydyw. Gellir gweld adnoddau Profi a chyfres o ffilmiau a phodlediadau defnyddiol trwy gofrestru ar wefan www.profi.cymru. Er mwyn cael cyfle i ennill podiau clust ac er mwyn cael dweud dy farn, os wyt ti rhwng 14 a 35, gellir llenwi holiadur trwy ddilyn y ddolen yma: https://www.surveymonkey.com/r/Profidylais

**Cwtsh Natur:**
Bydd cyfle i gymdeithasu, creu, cloncan, gwneud bach o arddio a mwynhau dished gynnes a chacen yn y sesiynau Cwtsh Natur a gynhelir yn Yr Ardd, Pont Tyweli o 10yb tan 12yp ar y 19fed o Chwefror, y 9fed o Fawrth, y 13eg o Ebrill a'r 11eg o Fai. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ar llinos.cbw@gmail.com

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Am y diweddaraf, ewch i'n cyfryngau cymdeithasol:
Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar
Trydar - @MenterGSG • Instagram - @MenterGSG
E-bost - ymholiad@mgsg.cymru neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platfformau yma cysylltwch â ni ar y ffôn: 01239 712934.

MASNACHWYR ADEILADU
DAVIES
Cyflenwyr Adeildu a D.I.Y.
Arddangosfa Ceginau
ac Ystafelloedd Ymolchi
ar agor

Heol yr Orsaf
Hendygwyn
Ffôn:
01994 240228

Premier
MAELFA
Siop y Pentref
Clunderwen
Nwyddau o bob math
am brisiau cystadleuol
01437 563200


J. B. OWEN
LLOGI PEIRIANNAU
Golygfa
Llandissilio
Ffôn: 01437 563693
07966 549623



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwener 1af Mawrth | Ymunwch â Clive a'i Ffrindiau i ddathlu Gwyl Dewi yn Caernarfon | £250 | 3 Diwrnod |
| Llun 7fed Mawrth | GOGONEDDAU ARFORDIR CERNYW – ST AGNES | £395 | 5 Diwrnod |
| Llun 11eg Mawrth | BOGNOR REGIS a'r "SOUTH DOWNS" | £395 | 5 Diwrnod |
| Gwener 15fed Mawrth | PENWYTHNOS YN BABBACOMBE | £385 | 4 Diwrnod |
| Gwener 22ain Mawrth | LOOE ac ARFORDIR CERNYW | £385 | 4 Diwrnod |
| Llun 1af Ebrill | YNYS WYTH - Isle of Wight. Gwesty Trouville SANDOWN | £445 | 5 Diwrnod |
| Sul 7fed Ebrill | SCARBOROUGH a Rhostir Gogledd Swydd Efrog | £535 | 6 Diwrnod |
| Gwener 12fed Ebrill | Gwesty'r Belgrave Sands TORQUAY | £325 | 4 Diwrnod |
| Mawrth 16eg Ebrill | TAITH DDIRGEL MIS EBRILL I ?????????? | £365 | 4 Diwrnod |
| Gwener 19eg Ebrill | PENWYTHNOS YN EFROG | £335 | 4 Diwrnod |
| Llun 22ain Ebrill | Yr EIDAL -Y Dolomites Dramatig a'r Llynnoedd Disglair | £995 | 8 Diwrnod |
| Gwener 26ain Ebrill | BLAS O GYMRU YN Y TYNEDALE, LLANDUDNO | £415 | 4 Diwrnod |
| Llun 29ain Ebrill | DEWCH I DDARGANFOD DINAS LERPWL ar ei gorau | £535 | 5 Diwrnod |
| Gwener 3ydd Mai | DANTEITHION PAIGNTON ac ARFORDIR HARDD DYFNAINT | £340 | 4 Diwrnod |
| Llun 6ed Mai | NORFOLK - TRENAU, LLONGAU a SANDRINGHAM | £565 | 5 Diwrnod |
| Sadwrn 11eg Mai | TEITHIO O AMGYLCH YNYS JERSEY | £795 | 7 Diwrnod |
| Iau 16eg Mai | ?????? PENWYTHNOS O DDIRGELWCH I RHYWLE ????? | £535 | 5 Diwrnod |
| Llun 20fed Mai | DEWCH I DDARGANFOD RHYFEDDODAU WEYMOUTH | £430 | 5 Diwrnod |
| Gwener 24ain Mai | SIOE FLODAU CHELSEA | £395 | 3 Diwrnod |
| Gwener 31ain Mai | (Newydd) NORWY - TELEMARK a'r FJORDS (Newydd) | £1,395 | 12 Diwrnod |
| Sul 2ail Mehefin | SIR GAER HYFRYD a PHENRHYN y WIRRAL | £535 | 5 Diwrnod |
| Sul 12fed Mehefin | CAINT HANESYDDOL - HISTORIC KENT | £495 | 5 Diwrnod |
| Mercher 12fed Mehefin | LLANDUDNO a TREN BACH YR WYDDFA | £565 | 5 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

## *Teithiau Undydd 2024*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sul | 10fed Maw | Caerdydd - Cymru v Ffrainc (Rygbi 6 gwlad) | £20.00 |
| Sadwrn | 16eg Maw | Caerdydd - Cymru v Eida. (Rygbi 6 gwlad) | £20.00 |
| Mawrth | 19eg Maw | Diwrnod Marchnad yn y Fenni | £24.00 |
| Mawrth | 26ain Maw | Trago Mills, Merthyr Tydfil | £22.00 |
| Mawrth | 9fed Ebrill | Gerddi Clun Abertawe a'r Mwmbwls | £18.00 |
| Mercher | 24ain Ebrill | Taith Diwrnod i Aberystwyth | £24.00 |
| Iau | 9fed Mai | Diwrnod Marchnad yn y Gelli Ganddryll | £25.00 |
| Mawrth | 14eg Mai | Taith yn cynnwys tê prynhawn yng Ngwesty'r Cliff | £45.00 |
| Mawrth | 28ain Mai | Bathdy Brenhinol, Amgueddfa Glo a Distyllfa Jin Hensol | £65.00 |
| Mawrth | 4ydd Meh | Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan | £20.00 |
| Mawrth | 18fedMeh | Caerdydd- Taylor Swift (dim yn cynnwys tocynnau) | £25.00 |
| Mawrth | 25ainMeh | McArthur Glen, Penybont ar Ogwr a Porthcawl | £20.00 |
| Sadwrn | 6edGorff | Sioe Awyr Abertawe | £18.00 |
| Mawrth | 23ainMeh | Taith i Dan yr Ogof (Gwyliau Ysgol) | £35.00 |
| Mawrth | 24ainGorff | Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd | £22.00 |
| Mawrth | 30ainGorff | Teithio Sir Benfro a tê prynhawn yn Cenarth | £40.00 |
| Sadwrn | 3yddAwst | Taith Gogledd Cymru Clive (Bore cynnar a mannau casglu cyfyngedig) | £50.00 |
| Sadwrn | 3yddAwst | Taith Gogledd Cymru Clive (Bore cynnar a mannau casglu cyfyngedig) | £50.00 |
| Mawrth | 6edAwst | Tŷ ddewi a Fferm Chwilod Dr Beynon | i'w gadarnhau |
| Mawrth | 19egAwst | Castell Margam a'r Gerddi | £18.00 |
| Gwener | 23ainAwst | Diwrnod y Merched yn ffoslas | i'w gadarnhau |
| Mawrth | 27ainAwst | Aberystwyth ac egwyl am fwyd ar ffordd adref (ddim yn y pris) | £24.00 |
| Mawrth | 10fedMedi | Ynys y Barri am y diwrnod | £22.00 |
| Mawrth | 24ainMedi | Taith Ddirgel a Phryd o Fwyd yn gynnwysiedig | £50.00 |
| Mawrth | 1afHyd | Te Hufen a thaith Cwch ar yr Afon Gwy | £50.00 |
| Mawrth | 8fedHyd | Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan | £20.00 |
| Mawrth | 22ainHyd | Siopa Nadolig yn Cabot Circus, Bryste | £25.00 |
| Mawrth | 29ainHyd | Diwrnod Marchnad yn y Fenni | £24.00 |
| Mercher | 6edTach | McArthur glen, Penybont ar Ogwr | £20.00 |
| Mawrth | 19egTach | Siop Vincent Davies, Hwlffordd | £14.00 |
| Sadwrn | 16egTach | Gŵyl y Gaeaf Abertawe (Winter Wonderland) | £16.00 |
| Llun | 25ainTach | Sioe Aeaf Amaethyddol Cymru, Llanelwedd | £22.00 |
| Iau | 28ainTach | Trago Mills, Merthyr Tydfil | £22.00 |
| Mawrth | 3yddRhag | Siopa Nadolig yn Abertawe | £16.00 |
| Mawrth | 10fedRhag | siopa nadolig yng Nhaerdydd | £20.00 |
| Iau | 12fedRhag | Marchnad Nadolig yn y Gelli Ganddryll | £25.00 |

**Ffôn: 01994 240908 / info@tafvalley coaches.co.uk**

# PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd Hapus i Cerys a oedd yn 9 oed ar Chwefror 5ed a Tomi a oedd yn 7 oed ar Chwefror 21ain. Mae'r ddau yn byw yn Adelaide, Awstralia. Llawer o gariad oddi-wrth Mamgu (Doreen Thomas, Pwll Trap), Wncwl Alun, Dadcu a Mamgu Dre (Derek ac Elonwy Cleaver) ac Auntie Steph, Wncwl Paul a Josh-ua, San Cler.





Penblwydd hapus i'r brawd a chwaer o Benybont ar Ogwr. Bydd Daniel yn 6 oed ar Chwefror 27ain a'i chwaer Harriet yn 3 oed ar Fawrth 19eg. Daw'r cyfarchion oddi wrth Dadcu a Nain, (Ryland a Beti-Wyn), Anti Iona ac Wncwl Ceri.

Pen-blwydd Hapus i Gruffudd Llewelyn yn 8 oed ar 20fed o Chwefror. Cariad Mawr wrth Mami, Dadi, Gwilym Huw, Mamgu Waunfach a'r teulu i gyd.








Penblwydd hapus iawn i Lleucu Rees, Tymawr, Crymych a oedd yn dathlu ei phenblwydd ar Ionawr y 31ain. Cariad mawr wrth Mam, Dad, Megan, Gwen a'r teulu i gyd.














# Gwisg Gymreig

**CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**

Edrychwch yn ofalus ar y ddau lun o Mam-gu let-wen yn ei gwisg Gymreig yn barod i ddathlu Gŵyl Ddewi gyda'i ffrindiau.
**Fedrwch chi ddarganfod y 10 peth sy'n wahanol yn yr ail lun?**




**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/03/24**

**Effi Mair o Gaerfyrddin yw enillydd Cystadleuaeth Cacen Nadolig**
Ateb: Dyn Eira (4), Robin Goch (4), Coeden Nadolig (1), Sion Corn (2), Peli Eira (6), Celyn (2), Plu Eira (4), Seren (7) oedd ar y gacen Nadolig.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

© y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2024

Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.

## Cipio Hanes Stondinau Llaeth Sir Gaerfyrddin – hoffem eich help

Rydw i ar genhadaeth i ddarganfod y ffotograffau, straeon heb eu hadrodd ac atgofion am stondinau llaeth Sir Gaerfyrddin, ac mae angen eich help chi i gadw'r etifeddiaeth am byth cyn iddynt gael eu colli i gof byw.

Nid oes yr un sir arall yng Nghymru wedi gwneud hyn ac felly mae hwn yn gyfle i gyfrannu rhywbeth gwerthfawr i genedlaethau'r dyfodol, a allai fod yn meddwl tybed beth oedd y pentyrrau hynny o gerrig ar ochr y ffordd yn cael eu defnyddio!

Tan ddiwedd y 1970au, bob bore roedd loriau o'r Bwrdd Marchnata Llaeth yn arfer casglu siams llaeth wedi'u llenwi o'r stondinau, fel arfer ar ddiwedd lonydd fferm. Yn 1974 roedd 1700 o ffermydd llaeth yn Sir Gaerfyrddin. Erbyn hyn mae llai na 500 o ffermydd llaeth.

Y tro nesaf y byddwch yn gyrru drwy gefn gwlad Sir Gaerfyrddin, byddwch yn awr yn sylwi ar y stondinau llaeth hyn sydd ers blynyddoedd wedi bod yn cuddio mewn golwg plaen.

Mae pob stondin laeth yn adrodd stori ddynol am arloesi a gwaith caled. Y stondinau yw arwyr di-glod diwydiant llaeth Sir Gaerfyrddin. Roedden nhw'n gyswllt diymhongar ond hanfodol rhwng y ffermydd a'r MMB, hebddyn nhw fel cerrig camu llythrennol, ni fyddai ffermwyr wedi gallu cael eu llaeth i'r farchnad ac felly heb gynhyrchu incwm.

Trwy dynnu lluniau a dogfennu hanes y stondinau hyn gallwn sicrhau y gall cenedlaethau'r dyfodol gysylltu ag esblygiad y diwydiant llaeth yn sir Gaerfyrddin.ac yn wir o fewn ein cymdeithas amaethyddol yn gyffredinol.

**Y Prosiect**

Mewn cydweithrediad â Chlybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin, rydym yn tynnu lluniau ac yn mapio'r holl stondinau llaeth sydd wedi goroesi yn y Sir cyn ei bod hi'n rhy hwyr ac mae'n nhw'n cael eu colli am byth. Bydd y prosiect hwn yn rhedeg trwy gydol Gwanwyn 2024. Er bod y ffermwyr ifanc yn mapio ac yn tynnu lluniau o stondinau llaeth sydd wedi goroesi, byddwn wrth fy modd â'ch help mewn un neu fwy o'r tair ffordd ganlynol:

**Rhannwch eich lluniau:**

Gallwch gloddio i mewn i'r albymau lluniau llychlyd hynny i weld a oes gennych unrhyw luniau anghofiedig o stondinau llaeth. Yn yr un modd os oes gennych unrhyw hen ffilm - byddai hynny'n arteffact prin iawn a phwysig iawn. Mae Ysgol Gelf Caerfyrddin wedi cynnig cymorth gyda o ran ffotograffiaeth y prosiect.

**Rhannu eich atgofion:**

Byddem wrth ein bodd yn clywed straeon ffermwyr, gyrrwyr loriau, neu weithwyr llaeth a allai gyfrannu at ein dealltwriaeth o dapestri diwylliant stondin laeth Sir Gaerfyrddin.

Cyfrannwch unrhyw arteffactau: Os oes gennych unrhyw stondin laeth neu ddogfennau, llythyrau, datganiadau, labeli corddi llaeth ac ati, byddent i gyd yn cael eu derbyn yn ddiolchgar i'r casgliad.

Mae Archifau Sir Gaerfyrddin wedi bod yn wych ac wedi datgelu cofrestr anghofiedig o lacio stondinau llaeth sy'n cofnodi'r blynyddol taliadau a wnaeth rhai ffermwyr i'r Cyngor gael stondin ar y prif ffyrdd. Heb y prosiect hwn, byddai'r gofrestr hon wedi aros heb ei darganfod.

Beth fyddwn ni'n ei wneud â nhw?

Byddwn yn eu cadw'n ddiogel wrth gwrs, a byddant yn cael eu rhoi i Archifdy Sir Gaerfyrddin, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Byddant yn cael eu cadw ar gyfer y dyfodol.

Byddwn yn digideiddio'r lluniau / ffilmiau / arteffactau a gellir dychwelyd y gwreiddiol atoch.

Byddwn hefyd yn llwytho'r ffotograffau (hen a newydd) i Gasgliad y Werin Cymru a bydd recordiadau llais yn cael eu harchifo gan Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**Sut i gyfrannu:**

- Anfonwch e-bost ataf yn milkstands@proton.me gyda'ch straeon a'ch lluniau.
- Ffoniwch fi, Anthony Rees ar 07802 435677 os hoffech fwy o wybodaeth neu i rannu stori.

# Bowlio

## Llywydd Bowlio Lawnt Cymru

**Llongyfarchiadau** i Arwel Edwards, Gorsfach, Pwlltrap ar gael ei ethol yn Llywydd Bowlio Lawnt Cymru yn ei Cyfarfod Blynyddol ym Merthyr Tydfil. Arwel yw'r Llywydd cyntaf wedi i adrannau dynion a merched uno.



Mae wedi bod yn aelod o glwb bowlio Pentywyn ers 30 mlynedd, yn drysorydd am 25 mlynedd ac wedi bod yn Llywydd Sir Benfro yn 2004 a 2022. Dymuniadau gorau iddo yn ystod blwyddyn ei lywyddiaeth.


FFERYLLFA EVANS
MEDICAL HALL • REBECCA HOUSE
San Clêr
01994 230444    01994 230456
eich canolfan gofal iechyd lleol
*Cyngor rhad ar gael gan ein staff profiadol*

Celia Vlismas
OPTEGYDD
Croeso i gleifion GIG!

Profion golwg GIG ar gael
Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un sy'n gymwys i gael gofal llygaid GIG
Castell Newydd Emlyn 01239 711888
Crymych 01239 831555
Arberth 01834 861373
www.celiavlismasopticians.co.uk

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
Robert W. R. Morgan
ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

# Clwb Rygbi Hendygwyn

**Dynion**

Ionawr

13eg: Colli adref yn erbyn Tregwyr 14-20. Cais gan Zac France Miller, 3 cic gosb gan Geraint Jones.

20fed: Gêm gyfartal i ffwrdd erbyn Felinfoel 16-16. Cais gan Lewis Tingay, 1 trosiad a 3 cic gosb gan Geraint Jones.

27ain: Colli adref yn erbyn Yr Hendy 21-22. Ceisiau gan Harry Fuller, Keiran Rees a Gino Setaro, 3 trosiad gan Geraint Jones.

Chwefror 2il: Colli adref yn erbyn Aberystwyth 8-17. Cais gan Zac France Miller, cic gosb gan Geraint Jones.

Mae pethau wedi gwella tipyn ers y Nadolig ond bydd hi'n hyfryd gweld y bois yn ennill gêm nawr, er mwyn cael eu hyder nôl.

**Menywod**

Dim ond un gêm mae'r menywod wedi chwarae yn ddiweddar, oherwydd y tywydd gwael a diffyg chwaraewyr gyda ni neu ein gwrthwynebwyr.

Gwnaethant ennill 44-19 yn erbyn Hwlffordd yn y Celtic Challenge.

**Merched dan 16**

Dim ond un gêm mae'r merched wedi chwarae hefyd, gan ennill 15-12 yn erbyn tîm Llanbed (Teifi Timberwolves).



Tîm merched dan 16 oed Clwb Rygbi Hendy Gwyn nath drechu tîm dan 16 Llanbed 15 i 12 yn ddiweddar. *Suzanne Davies*

---

*parhad o dudalen 36*

Roeddem wedi colli nifer o gyfleoedd am y pyst ac fe gymerodd ymdrech wych, ar y cyd gan y blaenwyr yn yr ail hanner, i reoli'r gem ac i gadw Nantgaredig yn ei hanner ei hunan. Sgoriwyd dau gais gan yr wythwr Will Icke, un wedi ei drosi gan Dan Griffiths. Llwyddodd Dan gyda dwy gic gosb hefyd i selio'r fuddugoliaeth.

Ionawr 27ain - San Cler 8 Aberdaugleddau 6.

Roeddem yn disgwyl gêm galed yn erbyn Aberdaugleddau, oedd wedi ennill ei tair gêm blaenorol. Daethant i Barc Griffith Jones gyda blaenwyr mawr ac roeddent yn llawn hyder wedi iddynt roi amser caled i'r Seintiau yn gynharach yn y tymor. Bu'n rhaid i ni fod yn amyneddgar gyda chais wedi ei sgorio gan yr asgellwr Jonathan Gostling. Seliodd Dan Griffiths y fuddugoliaeth yn hwyr iawn yn y gêm gyda cic gosb. Ein hamddiffyn arwrol ar y diwrnod wnaeth ennill y gêm i ni.

Mae gennym 6 gêm ar ôl i'w chwarae, 4 o rhain adref. Bydd ein gêm nesaf i ffwrdd yn erbyn Yr Aman ar Chwefror 17eg, yna byddwn yn dychwelyd I chwarae yn rheolaidd wedi i Bencampwriaeth y 6 Gwlad orffen. Mae'r hyfforddwyr a'r garfan yn edrych ymlaen tuag at y gemau sy'n weddill, ac er ein bod ar frig cynghrair Adran 2 y Gorllewin ar hyn o bryd, mae gennym gemau anodd o'n blaenau. Mae Casllwchwr a Dinbych y Pysgod dal o fewn cyrraedd i ni, gan bod ganddynt gemau mewn llaw drosom.

Mae'r tîm ieuenctid wedi chwarae dwy gêm yn ddiweddar ac wedi colli mewn dwy gêm agos fel gwelir isod.

Ionawr 20fed - San Cler 12 - Athletic Caerfyrddin 19

Chwefror 3ydd - San Cler 13 - Llanbed 21

Diolch o galon fel arfer i'n cefnogwyr ffyddlon a'n nod-dwyr hael am eich cefnogaeth barhaus – gwerthfaw-rogwn y cyfan yn fawr iawn. *Gwyndaf Williams*







*Lluniau Chris Rees*



# CHWARAEON



## Clwb Pel-droed Llanboidy

**Tymor 2023-24**
Mae tymor 2023-24 yn parhau i Glwb Pêl-droed Llanboidy.

**Tîm 1af**
Dros y ddau fis diwethaf, mae'r tywydd gwael wedi chwarae rôl yn y ffaith mai ond dwy gêm mae'r tîm cyntaf wedi chwarae, gan golli'r ddwy gêm hefyd.

Isod mae canlyniadau'r gemau gan gynnwys sgorwyr goliau'r Clwb:

Ionawr 13eg: Llanboidy 3 - 4 Sêr Dewi (Jac Griffiths, Dafydd Jones a Phil Howells)
Chwefror 3ydd: Sêr Dewi 3 - 1 Llanboidy (Luke Brisco)

**2il Dîm**
Dwy gêm mae'r 2il dîm wedi chwarae dros y mis diwethaf hefyd, colli un ac un gêm gyfartal. Isod mae'r canlyniadau a'r sgorwyr:

Ionawr 27ain: Aberaeron 2 - 1 Llanboidy (Sam Moore)
Chwefror 3ydd: Llanboidy 1-1 Crannog (Chris Bowen)

Rydym o hyd yn edrych am chwaraewyr newydd i'r Clwb - Bydd ymarferion yn cael eu cynnal ar gae 3G Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin bob nos Iau rhwng 20.00-21.00yh.



Tîm dan 12 gyda'i hyfforddwr Steve Evans a Gerwyn Morris a'r cit newydd



Tîm dan 10 gyda'i hyfforddwr Rhodri Lewis a'r cit newydd

**Adran Iau**
Mae'r Clwb yn parhau gydag ymarferion adran iau'r Clwb. Croeso cynnes i unrhyw un rhwng 5-16 oed i ymuno â'r timau derbyn, dan 6, dan 8, dan 10, dan 12, dan 14 a dan 16 sydd gyda ni.

**Ymarferion (Cae Dandre - Gampfa'r Clwb):**
Derbyn - Nos Fawrth 5.15-5.45yh
Dan 6 a 8 - Nos Fawrth 5.45-6.30yh
Dan 10 - Nos Fawrth 6.30-7.30yh
Dan 12 - Nos Lun 5.30-6.30yh
Dan 14 a 16 - Nos Fawrth 7.30-8.30yh

Diolch yn fawr iawn i'n holl noddwyr - rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol i'r Clwb. Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol.



Timau dan 8 a 6 gyda'u cit newydd

## Clwb Rygbi San Clêr

Aeth y Seintiau i mewn i 2024 ar frig y gynghrair a chael buddugoliaeth wych yn erbyn Abergwaun ar ddechrau mis Ionawr. Roedd disgwyl iddi fod yn amserlen brysur gyda 3 gêm arall cyn toriad y chwech Gwlad. Dyma'r canlyniadau :-

Ionawr 13eg – San Clêr 16 Athletic Caerfyrddin 11. Roedd hon yn gem anodd yn erbyn ein gwrthwynebwyr agosaf ac yn nodweddiadol o gem ddarbi lleol. Fe wnaethom reoli'r gêm yn dda a dylem fod wedi sgorio fwy o bwyntiau yn ystod yr hanner cyntaf, ar ol i Jac Howells sgorio cais cynnar, cafodd ei drosi gan Dan Griffiths. Wedi dweud hynny, gwnaeth yr Athletic amddiffyn eu llinell yn dda a'n hatal ni rhag sgorio fwy o geisiau. Llwyddodd Dan Griffiths gyda 3 cic gosb i sicrhau buddugoliaeth haeddiannol ar y diwrnod.

Ionawr 20fed – Nantgaredig 12 – San Cler 18. Mewn amodau heriol, fe wnaethom ddechrau yn ddigon simsan, gan gymryd amser i ddod mewn i'r gêm, gyda Nant yn cael y goruchafiaeth a'r tiriogaeth cynnar.

*parhad ar dudalen 35*